

ECO'R WYDDFA

Rhif 232

MAWRTH 1997

Pris 30c

'ALLO, 'ALLO, WAVELL!

Yn gynharach yr wythnos hon roedd Wavell Roberts yn Llundain mewn cystadleuaeth arbennig iawn i gygyddion Prydain. Fo oedd yn cynrychioli gogledd Cymru ym Mhencampwriaeth 'Pencampwr y Pencampwyr Selsig' am 1996-97. Bu cannoedd o gygyddion ledled Prydain yn cystadlu; pob un ohonynt yn bencampwr nifer o gystadlaethau rhanbarthol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Dau gygydd o ogledd Cymru fu'n cystadlu — Wavell o Lanrug, a chigydd arall o Rhuthun. Wavell oedd Pencampwr Gogledd Cymru y llynedd, ond yng nghystadleuaeth Cymru yn Llanellwyr, y cigydd o Rhuthun ddaeth i'r brig.

Mae'r gystadleuaeth flynyddol yn cael ei threfnu gan y *Meat Trades Journal*, a dyma'r tro cyntaf i Wavell fentro i Lundain i herio cigyddion o Loegr. Ond doedd dim rhaid iddo bryderu gormod, gan fod nifer go dda o'i gwsmeriaid yn dod o Loegr. Anodd credu fod selsig o Lanrug yn hynod boblogaidd mewn gwahanol rannau o Loegr. Ymwelwyr ar eu gwyliau yn yr ardal sydd wedi dechrau'r 'ffasiwn', er fod rhai o'r cwsmeriaid â chysylltiadau teuluol â'r ardal, ac yn prynu'n lleol cyn mynd yn ôl dros Glawdd Offa. Ac mae nifer o'r cwsmeriaid 'estron' hyn yn prynu selsig fesul pwys, gan fod eu ffrindiau yn Lloegr wedi archebu blasusfwdy arbennig Wavell. Ar hyn o bryd, mae archebion rheolaidd yn dod o Macclesfield, Manceinion, Derby, Buxton, Kent a Somerset — ac un archeb arbennig iawn yn dod dros y môr — o Lanerchymedd!


Er i Wavell ennill cystadlaethau ar wneud gwahanol fathau o selsig, eleni roedd yn cystadlu gyda'i selsig porc traddodiadol. Mae rheolau'r gystadleuaeth yn gaeth iawn: rhaid gwneud dau bwys o selsig — yn ddwy raff o rhwng chwech ac wyth selsig ym mhob pwys. Os yw'r pwysau ddwy owns yn fyr neu'n ormod, yna bydd y selsig yn cael ei diddymu o'r gystadleuaeth. Roedd angen coginio un pwys o selsig, ond cyflwyno'r lleill heb eu coginio.

Yn feirniad gwad ar y gystadleuaeth eleni roedd yr actores Vicki Michelle — y forwyn secsi o'r gyfres gomedi deledu boblogaidd 'Alo, 'Alo'. Gyda thipyn o lwc gallai archeb nesaf Wavell ddod yr holl ffordd o Ffrainc!

**Oes gennych chi
newyddion, stori neu
lun, neu unrhyw
beth diddorol ar
gyfer Eco'r Wyddfa?**

**Cysylltwch â'r
gohebwr pentref i
wneud yn siŵr ei fod
yn y rhifyn nesaf.**

ARIAN MAWR I'R AMGUEDDFA



Ddiwedd yr wythnos ddiwethaf cyhoeddodd Cronfa Loteri'r Dreftadaeth ac Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru fod Amgueddfa Lechi Llanberis — yr unig amgueddfa lechi genedlaethol yn y byd — wedi llwyddo yn ei chais i sicrhau £1.6 miliwn o arian y loteri. Bwriedir defnyddio'r arian i wneud yr amgueddfa yn ganolfan fodern yn ymwneud â hanes cymdeithasol a diwydiannol.

Amcan y datblygiad fydd gwella cyflwyniad hanes llechi yng ngogledd Cymru, gan ddefnyddio cyfres o ddulliau newydd. Bydd hyn yn cynnwys adfer un o incleins Chwarel Vivian i ddangos sut y câi talpiau anferth o lechi eu cludo i lawr y mynydd, symud teras o bedwar o dai chwarelwyr o Flaenau Ffestiniog i'r amgueddfa, ac ail-leoli tŷ'r prif beiriannydd er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng ffordd o fyw y penaethiaid a'r 15,000 o ddynion a bechgyn a weithiai yn y diwydiant enbyd hwn. Bydd mynediad i bawb hefyd at yr olwyn ddŵr fwyaf ar dir Prydain, trwy gyfrwng oriel i ymwelwyr y tu mewn i dŵr yr olwyn ddŵr. Bydd llwyfan yn cael ei osod o fewn y tanc dŵr gwag ar ben tŵr yr olwyn i bobl weld golygfeydd anhygoel o'r chwarel, yr Wyddfa, Castell

Dolbadarn, Llanberis a Pharc Padarn.

'Dyma newyddion cyffrous dros ben i'r rhan yma o Gymru,' meddai Colin Ford, Cyfarwyddwr Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru. 'Bydd y prosiect yn gatalydd i ddod a chyrff lleol a chenedlaethol at ei gilydd i ddatblygu treftadaeth ddiwydiannol wych yr ardal brydferth hon.'

Bydd yr awyrgylch gwaith yn yr amgueddfa yn cael ei wella trwy ddatblygu swyddogaeth y chwarelwyr, y gof a'r crefftwyr eraill sy'n gweithio yno heddiw. Bydd cyflwyniad amlgyfrwng dramatig o hanes llechi, â'r teitl 'Dwyn Mynydd', yn gosod diwydiant llechi gogledd Cymru a'i gymunedau mewn cyd-destun byd-eang, gan ddefnyddio adnoddau unigryw Amgueddfeydd ac Oriolau Cymru.

GWOBRWYO'R GOLYGYDD



Richard Lloyd Jones, golygydd chwaraeon yr *Eco* a enillodd tŵs un o brif hyfforddwyr yr ardal yn Noson Wobrwy Chwaraeon Gwynedd a gynhaliwyd nos Fawrth ddiwethaf. Ein llongyfarchiadau calonnog iddo gan ddiolch am ei waith fel hyfforddwr criced ac fel gweithiwr diflino dros chwaraeon yn yr ardal.

ECO'R WYDDFA

Rhif 232
MAWRTH 1997

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Golygyddol:

JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649

Cadeirydd Pwyllgor Llywio:
ARWEL JONES
CAE EBONI, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 871274

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR

Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU

Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu 871925

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion, Pontrug
(673696)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHANT POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-

Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry, Ael-
y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 27
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MAWRTH 17
Os gwelwch yn dda

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, (01286) 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
EBRILL	MAWRTH 27	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	MAI 1	DEINIOLLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 26	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 4	DINORWIG	—	—
HYDREF	HYDREF 2	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 30	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 27	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrâu

Paratowch am 1998

Annwyl Gyfeillion,

Mae dyddiaduron poced a desg
1998 ar waith yn barod yn Y Lolfa.
Hoffwn wahodd eich darllenwyr i
anfon i'r Lolfa **erbyn 21 Mawrth**
1997 unrhyw wybodaeth berthnasol
i'w cynnwys yng nghyfeiriadur y
dyddiaduron. Er mwyn i gyfeiriadur
1998 fod mor gywir â phosib hoffem
wybod am unrhyw gwmnïau neu
sefydliadau newydd sydd heb eu
cynnwys yn dyddiaduron 1997, yn
ogystal ag am unrhyw wybodaeth
sydd wedi newid neu sy'n ddiffygiol.

Eleni, fel arfer, mae croeso i
unrhyw gwmni neu sefydliad
hysbysebu yn y dyddiadur desg.
Mae'r telerau yn rhesymol dros ben.
Os am ragor o fanylion cysylltwch
â'r Lolfa ar unwaith.

Diolch am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

GARMON GRUFFUDD
Y Lolfa Cyf

Talybont, Ceredigion SY24 5HE.

Hogia Ffwrtbol Port

AT GYN-CHWARAEWYR A
CHYFEILLION CLWB PÊL-DROED
PORTHMADOG

Mae pedwar ohonom yn bwriadu
olrhain hanes Clwb Pêl-droed
Porthmadog gyda'r bwriad o
gyhoeddi llyfryn.

Os oes gennych unrhyw hanes,
ffotograff neu stori ddiddorol am y
Clwb hanesyddol yma, buasem yn
ddiolchgar pe baech yn cysylltu â ni.

Saith mlynedd yn ôl achubwyd
rhaid o gofnodion y Clwb rhag
tampwydd gan Gwynedd Jones a'u
dychwelyd i'r Clwb. Ond rhywsut
maent wedi diflannu ac yr ydym yn
awyddus iawn i'w darganfod er
mwyn cywirdeb yr hanes ac o gofio
mai eiddo'r Clwb ydynt.

Cysylltwch ag un o'r canlynol, os
gwelwch yn dda:

IFOR PRITCHARD (01766) 513751
GWYNEDD JONES (01766) 530618
IEUAN GRIFFITH (01248) 714776
GLYN OWEN (01766) 522476

Sgarff Jiraff

Annwyl Olygydd,

Mae angen help llaw arnom i wau
sgarff — nid sgarff gyffredin, ond un
fydd gobeithio yn torri record byd am
y sgarff hiraf erioed — 21 o
filitiroedd! Mae'r record ar hyn o bryd
ym meddiant trigolion Abbeyfield
Houses yn Swydd Hertford, a

chwblhawyd y sgarff honno ym mis
Mai 1988.

Bydd y sgarff gorffenedig yn cael
ei arddangos yn Eisteddfod Meirion
a'r Cyffiniau fel rhan o arddangosfa
arbennig Celf a Chrefft — Gwlân ym
Meirionnydd, golwg hanesyddol a
chyfoes.

Ydi, mae un filltir ar hugain o sgarff
yn gofyn am lot fawr o gyfraniadau
(a sawl jiraff!) ond ar ddiwedd
wythnos yr Eisteddfod bwriedir
torri'r sgarff i wneud blancedi fydd
yn cael eu dosbarthu i'r anghenus
ym Mhrydain ac mewn gwledydd
tramor gan uned argyfwng Oxfam.
Yr unig feini prawf i chi gadw mewn
cof yw fod y sgarff yn **naw modfedd**
o led, gan ddefnyddio **gwllân dwbwl**
— unrhyw liw, unrhyw batrwm,
unrhyw hyd. Bydd pob sgarff yn cael
eu gwnio at ei gilydd i greu un sgarff
hir, a fydd gobeithio yn torri record
byd, ac yn sicrhau enw Eisteddfod
Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau yn
llyfr Guinness.

Felly ewch ati i wau dros Feirion,
gan ddanfôn eich campweithiau ataf
i — rwyf eisoes wedi derbyn cynifer,
ac mae'r sgarff ar hyn o bryd yn
cyrraedd giât y tŷ acw!

Hwyl gyda'r gwau!

Yn gywir,

BETI JAMES
Cadeirydd Pwyllgor Celf a Chrefft
Eisteddfod Genedlaethol
Meirion a'r Cyffiniau
Garth Celyn, Caegadlas,
Y Bala, Gwynedd LL23 7AT

Byclins

Annwyl Olygydd,

Gan ei bod bellach yn 60 mlynedd
ers i Billy Butlin lansio ei gwmni
gwylliau enwog, mae Ffilmiau Eryri'n
ymchwilio ar gyfer rhaglen ddogfen
fydd yn olrhain hanes gwersyll

Butlin's Pwllheli a Gwersyll y Barri.
Hoffem glywed gan unrhyw un a fu
yno'n gweithio, yn perfformio, ar
wylliau, neu yno ar drip Ysgol Sul ers
eu sefydlu, y naill yn y 40au a'r llall
yn y 60au.

Buasem yn hoffi clywed sut effaith
gafodd y sefydliadau hyn ar y
gymuned ac ar economi'r ardal. Oes
rhywun yn cofio ymweliad neu
berfformiad gan enwogion efallai,
neu a fu rhywun yn cystadlu yn
Eisteddfod Butlin's Pwllheli ac a
fuasai'n fodlon rhannu atgofion gyda
ni? Nid oes gennym ddiddordeb
mewn ymateb i faterion rheolau
cynllunio, ac ati.

Beth bynnag yw eich profiadau, os
hoffech gyfrannu, buasem yn falch
iawn o glywed gennych.

Yr eiddoch yn gywir,

GWAWR WILLIAMS

Ffilmiau Eryri

Hen Ysgol Aberpwll, Ffordd Bangor,
Y Felinheli, Gwynedd LL56 4JS.

SNOWDON KITCHENS

57 STRYD FAWR
LLANBERIS

(01286) 870555/870443

CEGINAU, TEILS SERAMIG
ANRHEGION



'Dyw cegin SNOWDON KITCHEN yn
costio DIM MWY na cheginau'r siopau
mawr DIY, ond cymharwch ansawdd
ein ceginau ni. Rydym yn cynnig:

- Ceginau cadarn da mewn derw,
castanwydden (chestnut) a phin
- Dewis eang o lamneiddiau modern
- Corff mewn dewis o 8 lliw cydnewws
- Droriau a cholynnau cadarn
- Dewis da o wahanol feintiau
- Maint arbennig ar gael os oes angen
- Crefftwyrr lleol yn ymfalchio yn eu
gwaith
- Prisiau rhesymol ar gyfer gosod a
dodrefnu
- Llythyrâu canmol a chwsmeriaid bodlon
- Gwerthu gonest, prisiau gonest

HEFYD:GWASANAETH NEWID DRYSAU
A 'WORKTOPS'

AR AGOR SAITH DIWRNOD YR WYTHNOS
FFONIWCHE PETER ROOKE AM BRISIAU A
GWASANAETH CYNLLUNIO DI-DÂL

Emyr Jones PLYMAR A PHEIRIANNYDD GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG

(01286) 673513

hefyd

(0374)

496616

(symudol)





Cafwyd benthylg y llun yma o Gwmni Drama Wl Llanrug gan Mrs G. M. Jones, Dalar Deg, Llanrug. Credir mai 'Y Tebot' oedd enw'r ddrama. A oes rhywun all enwi'r cast neu roi dyddiad i'r llun?

STOP AR YR INC

Mae dau o gyfranwyr yr *Eco* wedi cael cyfnodau mewn ysbyty yn ddiweddar ac anfonwn ein cofion atynt.

Bu John Ellis Williams (Y Gwalch) yn Ysbyty Gwynedd a hyderwn ei fod yn gwella erbyn hyn ac yntau wedi cael dau gyfnod yn yr ysbyty yn ddiweddar. Dyna sy'n egluro pam na chafwyd cyfraniad gan 'Y Gwalch' ers rhifyn neu ddau o'r *Eco*. Brysiwch wella.

Mae Delyth Parry (Llanberis), sydd wedi bod yn anfon llythyrau atom o Frwnei ers rhai blynedd bellach hefyd wedi cael cyfnod yn yr ysbyty yn y wlad honno. Mae'n dda deall ei bod yn gwella erbyn hyn, a'i bod wedi ailafael yn ei gwaith. Edrychwn ymlaen at dderbyn ei llythyr nesaf pan gaiff gyfle i daro gair ar bapur.

Y SAMARIAID

Mae cangen Bangor o'r Samariaid yn cynnig gwasanaeth ffôn 24 awr i bobl sy'n unig, yn ddigalon neu'n isel iawn eu hysbryd. Hefyd mae croeso i unrhyw berson alw i'n gweld yn 5 Lôn Abaty, Bangor, yn ystod oriau'r dydd. Byddwn yn gwrandao'n gyfrinachol gyda chydymdeimlad ac heb feirniadu.

Rydym bob amser angen gwirfoddolwyr sy'n barod i wrando, o 18 oed i 70 oed. Ac, os nad ydych yn meddwl eich bod y math yna o berson, mae angen pobl sy'n barod i drefnu gweithgareddau i godi arian at gynnal y gangen. Mae 'Cyfeillion y Samariaid' yn gwneud gwaith glew ond maent yn ychydig mewn nifer.

Buasem yn falch iawn o glywed gennych trwy lythyr neu ar y rhif ffôn (01248) 354646 os oes gennych ddiddordeb mewn cynnig eich gwasanaeth... a byddwn yn barod iawn i wrando petaech angen rhannu problem hefyd.

Lowri

(Ysgrifennydd Gwirfoddolwyr)

FFENESTRI PADARN

FFENESTRI A DRYSAU uPVC

Cynnig 1: 3 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£600**

Cynnig 2: 5 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£895**

Cynnig 3: 7 FFENEST WEDI EU FFITIO AM **£1,295**



(01286) 871774


CYLCH MEITHRIN A CHYLCHOEDD TI A FI GWYNEDD

Gwnaed dros £200 o elw at Apêl Tŷ Enfys yn dilyn stondin lwyddiannus Cylch Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi Gwynedd a gynhaliwyd yn Ysbyty Gwynedd ddiwedd mis Ionawr.

Enillwyd raffl y flanced, a wnaed gan Mrs Greta Humphreys, Caernarfon, gan Siân Evans, Pwllheli. Diolch i Mrs Humphreys am ei rhodd. Bethan Williams, Brynrefail, oedd yn gywir am ddyfalu dyddiad pen-blwydd Wcw, sef 16 Mai.

Mae Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Ti a Fi Gwynedd yn diolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr Apêl.

O'R DIWEDD



mae **VODAFONE** WEDI CYRRAEDD LLANBERIS A'R CYLCH

'Mi rydwi'n teimlo'n llawer mwy diogel yn teithio ar fy mhen fy hun ers imi gael ffôn symudol.'

L. Roberts, Llandwrog

Ffôn Philips Fizz* AM DDIM
Cysylltwr ffôn AM DDIM
'Itemised Billing' AM DDIM
Yswiriant AM DDIM
Cês Cario AM DDIM
'Charger Car' AM DDIM
100 munud o alwadau y mis** AM DDIM

* Batri cryf gyda llawer o nodweddion arbennig

Hawdd i'w gario — hawdd i'w ddefnyddio

** yn dibynnu ar y tariff a ddewiswch

AM FFÔN SYMUDOL MANTEISIWCH AR GYNNIG ANHYGOEL

ffôn Cymru phones

i glywed mwy cysylltwch ar unwaith â

fizz

(01286) 672170 neu 0836 234420

CHWILOTA TAFARNDAI CYNNAR Y FRO



Prin iawn yw'r cofnodion sydd ar gael am hen dafarndai'r fro, a phrinnach fyth yw'r cofnodion am eu cwsmeriaid. Trueni na fyddai tafarnwyr, fel ysgrifenyddion capeli ac eglwysi, wedi cadw cofnod o 'gyfraniadau' eu 'haelodau', a'u cyflwyno'n 'adroddiad blynyddol' taclus! Er hynny, mae rhai cofnodion wedi goroesi, a cheir syniad go dda o sawl tafarn oedd yn bodoli yn yr ardal ddau gant o flynyddoedd yn ôl. Mae copïau ar gael o drwyddedau 'Alehouse Keepers', ond yn anffodus, nid yw'r rhai cynharaf yn rhoi enw tafarn, dim ond enwi'r tafarnwr.

Yn 1804 dim ond pedair o dafarnau oedd ym mro'r *Eco* i gyd — rhai trwyddedig o leiaf! Roedd dwy yn Llanberis, yn eiddo i Robert Closs a Morris Pritchard. Gwyddom mai Ty'n Llan, Nant Peris oedd y dafarn a gedwid gan Robert Closs, ond does dim sicrwydd ynglŷn â pha dafarn oedd un Morris Pritchard. Y tebygolrwydd yw mai'r Dolbadarn ydoedd, ar safle ble roedd yr hen lôn o Lanrug dros y Clegir yn croesi Afon Goch cyn parhau ar draws y Ddôl tua Castell Dolbadarn. Roedd gŵr o'r enw John Williams yn cadw tafarn yn Llanddeiniolen, a William Hughes yn cadw tafarn yn Lanrug. Unwaith eto, gwyddom mai Pen Bont Rhythallt oedd honno.

Erbyn 1810 roedd un dafarn ychwanegol yn Llanddeiniolen, yn cael ei chadw gan Richard Roberts, ond does dim sicrwydd o'i lleoliad. Roedd Pierce Morgans hefyd yn cadw tafarn y Snowdon Ranger yn y Waunfawr (Betws Garmon a ddylai fod, mae'n debyg).

Yn 1818 does dim sôn am y Snowdon Ranger, ond mae'n siŵr mai'r un ydyw â Snowdon Guide House, Betws Garmon; yn cael ei chadw gan Robert Owen. Erbyn hyn hefyd mae gŵr o'r enw Daniel Gregory wedi agor tafarn yn Llanberis. Mae cofnodion eraill yn profi mai mwynwr yng ngweithfeydd copr Nant Peris oedd hwn.

Daw tafarn arall eto i'r rhestr yn 1820, sef The Hand, Betws Garmon. Ble roedd honno tybed? Ai'r un ydyw â'r Betws Inn ddiweddarach? Enwir y Gors Bach, Llanddeiniolen am y tro cyntaf, a daw ail dafarn i Lanrug o'r enw Cae'r Gors, yn cael ei chadw gan Robert Roberts. Methais â darganfod ble roedd Cae'r Gors yn Lanrug.

Yn ystod y deng mlynedd nesaf mae nifer helaeth o'r tafarndai hyn yn cael eu henwi, rhai fel y Vaynol Arms, Nant Peris; Dolbadarn Inn, Llanberis; Rhythallt, Lanrug; a Penllyn Cwellyn, Betws Garmon.

Erbyn diwedd y ganrif roedd

cynnydd mawr wedi bod yn nifer y tafarndai, ac erbyn 1892 roedd dwy dafarn ym mhlwyf Betws Garmon, naw yn Llanberis, deg yn Lanrug ac un ar ddeg yn Llanddeiniolen. Mae llawer o'r tafarndai hyn yn aros heddiw, ond diflannodd y lleill. Tybed ble roedd y Coach and Horses, Rhiwlas; King's Head a'r Quarryman's Arms, Clwt y Bont; Prince of Wales a'r Vaynol Arms, Deiniolen; a'r Cross Keys, Caeathro? Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth am yr hen dafarndai hyn; neu hyd yn oed luniau ohonynt. Oes rhai o'r 'ffyddloniaid' yn fodlon anfon pwt neu roi galwad ffôn?

'DEINIOLLEN DEBATING SOCIETY'

Mae rhywun wedi tueddu i feddwl mai enw gweddol ddiweddar ar Ebenezer yw Deiniolen, ond mor bell yn ôl a 1864 roedd yr enw 'Deiniolen' yn cael ei ddefnyddio ar y pentref neu'r ardal o amgylch Ebenezer. Ar Fawrth 12 y flwyddyn honno y ffurfiwyd y 'Deiniolen Debating Society'. Yn Saesneg y mae ei theitl bob tro y deuthum ar draws cofnod ohoni, ond mae'n ymddangos mai yn Gymraeg yr oedd y dadleuon yn cael eu cynnal.

Llywydd cyntaf y Gymdeithas oedd gŵr o'r enw Hassan. Fel yna'n unig y cyfeirir ato. Does gen i'r un syniad a oedd yn enw bedydd, cyfenw neu ffugenw arno. Yr ysgrifennydd cyntaf oedd John Ellis, a alwai ei hun yn Ioan Orwig; a'r trysorydd oedd R. D. Pritchard, Dinorwig Terrace.

Noson cyfarfod y Gymdeithas oedd nos Sadwrn! Penderfynwyd yn y cyfarfod cyntaf eu bod i gynnal dadl bob tair wythnos. Y ddadl gyntaf i'w chynnal oedd ar un o bynciau llosg y dydd, sef y Rhyfel Cartref yn America. Roedd Gwilym Ddu Eryri i agor y ddadl o blaid y Gogledd, a Hassan i ddadlau o blaid y De. Mae'n ymddangos mai cymdeithas ar gyfer dynion yn unig oedd hon.

Anodd darganfod am ba hyd y bu'r gymdeithas mewn bodolaeth, ond os oes gan

unrhyw un o'r darllenwyr wybodaeth, yna anfonwch air.

HAWLIO'R ENW 'PENCERDD ARFON'

Yn Eisteddfod Caergybi yn 1872 urddwyd John Henry Roberts, brodor o'r Gefnan, Mynydd Llandegai, yn 'Bencerdd Gwynedd'. Bu iddo yrfa gerddorol lwyddiannus iawn, a bu am gyfnod yn organydd capel Castle Square, Caernarfon, cyn graddio mewn cerddoriaeth a symud i Lerpwl ble sefydlodd y *Cambrian School of Music*.

Yn yr un eisteddfod, urddwyd gŵr o'r enw J. R. Jones yn 'Bencerdd Arfon'. Fe'i galwai ei hun yn 'Eos Cynfi', a hanna i ardal Ebenezer. Ond o fewn llai na phedair blynedd roedd dadl wedi codi ynglŷn â'r teitl 'Pencerdd Arfon', ac yr oedd W. Hayden, Caernarfon hefyd yn ei ddefnyddio. Mab oedd hwn i Henry S. Hayden, cerddor a aned yn Llanellwy, ac a ddaeth yn organydd i Eglwys St. Mair, Caernarfon, ac yn athro i'r Coleg Hyfforddiadol.

Ond pwy oedd J. R. Jones? Honnai yn 1876 fod ganddo lythyr gan ysgrifennydd Gorsedd Eisteddfod Caernarfon yn cydnabod ei hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r enw 'Pencerdd Arfon'. Roedd Deiniolfryn (William John Hughes) yn cefnogi hawl J. R. Jones i alw ei hun yn Bencerdd Arfon. Mewn llythyr i'r wasg yn Hydref 1876 mae'n galw ar William Hayden i brofi ei hawl i'r enw, ac yn gofyn ar ba awdurdod y mae'n galw ei hun yn Bencerdd Arfon ar restr aelodau Pwyllgor Cerddorol Eisteddfod Caernarfon.

Bu'r ddadl yn parhau am rai wythnosau, ond nid yw'n

ymddangos iddi gael ei datrys yn foddhaol. Hawliai llawer o gerddorion y teitl 'Pencerdd', a pharhaodd yr arferiad i'r ganrif hon. Er hynny, does gen i ddim gwybodaeth a oedd yn deitl 'swyddogol', yn deitl 'eisteddfodol', neu'n deitl a ddefnyddid yn ôl mympwy'r cerddorion eu hunain. Byddai'n ddiddorol cael mwy o wybodaeth. Hoffwn hefyd wybod mwy am Eos Cynfi. Oes rhywun yn gwybod?

BYWGRAFFIADUR LLEOL?

Faint tybed o 'enwogion' y fro sydd wedu eu cynnwys yn y gyfrol swmpus honno, *Y Bywgraffiadur Cymreig*? Wnes i erioed roi cynnig ar eu cyfrif. Ond faint bynnag ohonynt sydd wedi eu cynnwys, rwy'n siŵr gen i fod degau (os nad cannoedd) o enwau eraill, wedi eu hepgor. Nid fod i'r rheini eu pwysigrwydd cenedlaethol efallai, ond fod iddynt yr hawl i gael eu cofio yng nghofnodion hanes y fro hon.

Felly, dyma her i chi'r mis hwn. Beth am greu rhestr o rai o gymeriadau'r fro y dylid eu cofnodi pe bai Bywgraffiadur lleol yn cael ei gyhoeddi. Gallwch gynnwys enwau o ba bynnag faes a fynnoch — cerdd, crefydd, llên, diwydiant, chwaraeon, masnach, gwyddoniaeth, addysg, ac yn y blaen. Anfonwch yr enwau (gan nodi pam y dylid eu cynnwys) i mi erbyn y mis nesaf. Efallai, dros y misoedd nesaf y gallwn ffurfio rhestr gynhwysfawr o holl 'enwogion' bro'r *Eco*.

Cysylltwch â mi gydag unrhyw wybodaeth neu ymholiad. Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon (01286) 673515.

GARTH MAELOG PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dŵr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cŵn a chathod
o bob math
gan arbenigwyr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

'Un funud fach ...' CALON LÂN

Yr wythnos ddiwethaf y clywais yr ymadrodd am y tro cyntaf, 'Calon Lân y Pasg' a 'Dillad Newydd Sulgwyn'. Nid wyf yn gwbl siŵr o'i ystyr gwreiddiol. Mae'n debyg bod ynddo gyfeiriad at yr arfer o gael dillad newydd erbyn y cymanfaeodd a gynhelir adeg y Sulgwyn.

Beth bynnag ei ystyr wreiddiol, mae'n ymadrodd digon addas am ddathliadau dwy o wyliau mawr yr Eglwys Gristnogol.

Mae'r fasnach cardiau cyfarch wedi cydio'n dynn yn y Pasg erbyn hyn. Mae mwy a mwy o gardiau i'w gweld bob blwyddyn, â'r rheiny'n dymuno Pasg dedwydd, hapus a bendithiol i ni. Ond beth sy'n gwneud Pasg dedwydd? Pa fendith allwn gael y Pasg hwn?

Un o'r pethau rhyfeddaf am y Ffydd Gristnogol yw ei bod yn mynnu cofio a dathlu marwolaeth yr Arglwydd Iesu Grist. Dathlwn barodrwydd Iesu Grist i gymryd y cyfrifoldeb am ein holl bechodau ni. Dathlwn y ffaith iddo wynebu'r gosb am y beiau hynny wrth gael ei ladd ar Galfaria. Dathlwn ei gariad mawr yn dioddef yn ein lle. Ond dathlwn hefyd ei atgyfodiad. Daeth yr Un a fu farw yn ôl yn fyw. Ac mae ganddo fuddugoliaeth ar gyfer y rhai sy'n ymddiried ynddo. Nid oes raid i'r rheiny ofni marw gan fod Iesu wedi ennill bywyd tragwyddol iddynt. A chan fod Iesu wedi dioddef cosb pechod yn lle ei bobl, mae maddeuant am bob bai yn cael ei gynnig iddynt. Does ryfedd y gallwn sôn am Galon Lân y Pasg.

Yr Ysbryd Glân gaiff y sylw pan ddaw'r Sulgwyn. Byddwn yn cofio bod Duw wedi tywallt ei ysbryd ar y disgyblion wedi i'r Iesu eu gadael. Rhoddodd yr Ysbryd nerth newydd ac awdurdod newydd i genhadaeth yr Eglwys. A Duw a ŵyr bod yr angen yn fawr am dywalltiad yr Ysbryd Glân ar bobl Dduw yng Nghymru heddiw. Mae arnom angen nerth Duw i'n harwain a'n galluogi i wneud gwaith yr Efengyl. Gweddiwn am Wisg Newydd y Sulgwyn eleni: gwisg gallu a nerth Duw i gyflawni'r gwaith o rannu'r newyddion da am Iesu Grist a dangos ei gariad i gymdeithas anghenus.

JOHN PRITCHARD

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Eisteddfod Bethel. Mewn pwyllgor a gynhaliwyd yn ddiweddar adroddwyd gan y trysorydd, Rhys Harris, fod sefyllfa ariannol yr eisteddfod yn ffafriol i gynnal eisteddfod eto eleni ar Dachwedd 8fed. Mynegwyd gwerthfawrogiad i bawb a weithiodd yn galed i sicrhau llwyddiant yn 1996. Gobeithir trefnu noson y dawnsio ar nos lau, 6 Tachwedd; a'r Celf a Chrefft ar y nos Wener, 7 Tachwedd. Y swyddogion am eleni yw — llywydd: Dafydd Williams, Llanddwyn; is-lywydd: Goronwy Jones; ysgrifennydd: Rita Dauncey Williams; is-ysgrifennydd: Rhian Hughes, Erddig; trysorydd: Rhys Harris. Diolchodd Glenys Griffiths i Goronwy Jones, Cilan, am ei wasanaeth diflino fel llywydd y pwyllgor am dros ugain mlynedd. Cynhelir y pwyllgor nesaf ar 7 Mai am 7.30 o'r gloch.

Merched y Wawr. Daeth nifer dda i'r cyfarfod nos Fercher, 12 Chwefror, a gynhaliwyd yn festri Capel Bethel dan lywyddiaeth Mrs Deilwen Hughes. Diolchodd i swyddogion Capel Bethel am gael defnydd o'r festri oherwydd bod yr ysgol ar gau. Y wraig wadd oedd Mrs Julie Jones, Ceunant, yn arddangos gwaith cwilsennu; celf hynafol o rowlio papur ac yna ei drefnu yn batrwm. Diolchwyd iddi gan Mrs Deilwen Hughes.

Rhoddwyd y te gan Mrs Nora Parry, Mrs Sheila Roberts a Mrs Margaret Williams. Roedd dwy raffl — y naill gan y gwestwragedd a'r llall gan Mrs Julie Jones a'r enillwyr oedd Rhian Hughes a Nora Parry.

Pasiwyd i roi eitem yn y Bwrlwm Bro. Ceir mwy o fanylion yn y cyfarfod nesaf.

Diolchodd y llywydd i Edwina Morris ac Eryl Roberts am gasglu £74 drwy fynychu noson nodedig (dwyawr o ddistawrwydd) dan nawdd is-bwyllgor yr anabl. Diolch hefyd i bawb a'u noddodd.

Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi nos Fercher, 12 Mawrth, yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy. Enwau ac arian (£12) i'r trysorydd cyn gynted a bo modd, os gwelwch yn dda.

Y Gymdeithas Lenyddol. Nos Fawrth, 18 Chwefror, yn festri Bethel cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni'r Parchedig Harri Parri,

Caernarfon. Cafwyd sgwrs ganddo am fywyd Tom Nefyn o gyfnod ei droedigaeth yn dilyn ei brofiadau yn y Rhyfel Mawr trwy ei gyfnod yn Y Tymbl hyd ei farwolaeth yn niwedd y 50au. Cafwyd cyfraniadau pellach gan nifer o'r gynulleidfa oedd ag atgofion personol am Tom Nefyn. Diolchwyd i Mr Parri gan Dafydd Williams, Llanddwyn.

Bydd cyfarfod nesaf y Gymdeithas nos Fawrth, 18 Mawrth yn festri Bethel gyda'r Parchedig Gwyn Erfyl yn sgwrsio ar 'Ffordd o Weld'.

Am chwarter i saith cyn y cyfarfod ar 18 Mawrth bydd swyddogion y Gymdeithas yn cyfarfod i drafod rhaglen tymor 1997-98 ac estynnir gwahoddiad i unrhyw aelod i'r cyfarfod hwnnw i gynnig syniadau am weithgareddau a siaradwyr.

Yr Urdd. Mewn cyfarfod diweddar o bwyllgor yr Urdd penderfynwyd gwahodd ymholiadau gan bersonau brwdfrydig a gweithgar i fod yn arweinydd y gangen dros dymor 1997-98.

Mae criw da o aelodau yn cyfarfod yn y Neuadd bob nos lau yn ystod tymor y gaeaf. Ar yn ail nos lau ceir gweithgareddau celf gyda gweithgaredd amrywiol ar y nos lau arall.

Os oes unrhyw un yn teimlo yr hoffai gyfrannu at weithgareddau'r Urdd yn y pentref gellir cysylltu â Geraint Elis, cadeirydd y pwyllgor; Siân Harries, neu Carys Williams yr ysgrifenyddes.

Enillwyr Clwb 100 yr Ysgol Gynradd am fis Chwefror — £20: Gwen Jones, Sŵn y Fenai, 8 Stryd yr Eglwys, Caernarfon (94); £12: G. W. Griffith, 17 Bryn Môr, Y Felinheli (35); £8: Gwilym Williams, 20 Y Ddôl, Bethel (85); £5: G. Williams, Penterfyn, Llanrug (76); £3: Eiriona Williams, 7 Bro Rhos, Bethel (91). Diolch i bawb am y gefnogaeth.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cyfarfod Ymddeoliad. Estynnir croeso i drigolion Brynrefail sydd wedi bod dan law Dr Pamela Jones, Y Feddygfa, Llanberis i fynychu un o'r cyfarfodydd ymddeoliad a gynhelir yng Nghwm-y-glo, Deiniolen, Llanberis a Llanrug. Bydd yn ofynnol i chwi hysbysu'r sawl sy'n gyfrifol am y trefniadau yn y ganolfan y dymunwch ei mynychu. Mae lleoliad y cyfarfodydd yn y pentrefi a rhifau ffôn y sawl dylech gysylltu â hwy yn y rhifyn hwn o'r Eco.

Eglwys M.C. Brynrefail. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn yr oedfaon yn ystod mis Mawrth:

2: Mr Norman Closs Parry, Tre-fynnon (10)

9: Parchg John Owen, Bethesda (5.30)

16: Mr John L. Williams, Bangor (10)

23: Parchg Dafydd Hughes, Caernarfon (5.30)

30: Mr Vernon Owen, Llandwrog (10)

Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd yn oedfa Mawrth 23ain. I'r Ysbyty. Dymunwn adferiad buan i Mr Hugh Williams, 4 Tai Orwig. Ein cofion cynhesaf ato yn ystod ei arhosiad yn Ysbyty Gwynedd.

DRAENOG



Peidiwch byth a brolio wrth chwarae golff — nid brolio am bêl-droed beth bynnag! Clywais hanes rheolwr un o dimau ffwtbol yr ardal yn chwarae rownd o golff efo cyn-reolwr tîm ffwtbol lleol. Roedd eu golff yn eitha — ond meddai'r naill wrth y llall, 'Digon o gôls fory; cymaint o gôls ac sydd o dyllau yn y cwrs golff 'ma.' Edrych ymlaen roedd o at gêm yn erbyn y tîm ar waelod y gynghrair. Ond och! Cael a chael fu hi i guro o un gôl yn unig — a honno'n benalti go amheus yn ôl a glywais!

ERIC JONES
PENISARWAUN
PEINTIWR
AC ADDURNWR




Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

Am eich
ANGHENION
ADEILADU
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
BRISIAU
CYSTADLEUOL
DEWCH AT

BRYN
(B & K Williams)



Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar Ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis
Ffôn/Ffacs: (01286) 672619
Richard S. Humphreys

O SIAMBAR SELWYN

Mae sŵn etholiad cyffredinol yn y gwynt. Duw a'n gwaredo, ni allwn ddianc rhagddo.

Rŵan, fŵm i 'rioed yn benboethyn cyn belled â mae gwleidyddiaeth yn y cwestiwn, a diolch i Dduw am hynny. Rydwi wedi gweld nifer o ddynion a merched eitha doeth a synhwyrol yn gwneud ffyliaid ohonyn nhw eu hunain o feddwi ar wleidyddiaeth.

Fŵm i 'rioed yn aelod o unrhyw blaid, er i'r gangen gynta 'rioed o Blaid Cymru ym Methel gael ei sefydlu ar aelwyd fy nghartre i yn Bryn Alun. Rydwi'n cofio 'dynion diarth' fel yr Athro Jac Daniel, Ambrose Bebb, J. E. Jones a'r Parchg Ben Owen, Llanberis (ar ei feic) yn dod acw i drafod 'petha cymhleth' tu ôl i ddrws cloedig, yn y dyddiau pan oedd Penberth yn mud losgi.

Roedd 'nhad yn un o'r ychydig chwarelwyr a oedd yn ddigon dewr i ddangos ei liw gwleidyddol ym mysge ei gydweithwyr, yn y dyddiau hynny pan oedd y 'Blaid Bach' yn destun gwawd, a phryd y gallai mul — o wisgo ruban coch — gael ei ethol i Senedd Prydain Fach.

Dyna'r rheswm, o bosib, i mi roi fy mhleidlais i Blaid Cymru dros y blynyddoedd — o barch i fy rhieni ac i gofio am y seiadau cyfrinachol a gynhaliwyd ym Mryn Alun tua thrigain mlynedd yn ôl. Ond fŵm i 'rioed yn benboethyn gwleidyddol.

Ond, rhoswch, dwi'n deud celwydd rŵan (fel ambell aelod seneddol!). Do, mi gollais fy mhen unwaith pan oedd y diweddar R. E. Jones, Llanberis yn ymgeisydd dros y Blaid. Mi fŵm i, a chriw o ffrindiau, yn canfasio dros RE ar gefn beics o gwmpas pentrefi bro'r Eco. Mae gen i go' o gael fy mhledu hefo tomatos wrth fynd drwy bentre Cwm-y-glo (rhag c'wilydd ichi bentrefwyr y Cwm!). Dwi'n cofio RE yn deud ar ôl yr etholiad hwnnw iddo weld un bocs yn cael ei agor yn y cyfrif yng

Nghaernarfon a'r pleidleisiau ynddo bron i gyd iddo fo. 'Wyddoch chi be,' meddai RE, 'roeddwn i'n poeni am eiliad mod i'n mynd i mewn!'

Mi fyddai'n gwylio'r rhaglen 'Prime Minister's Question Time' weithiau, nid am fod yna unrhyw wybodaeth sylfaenol na goleuni ar faterion y dydd i'w gael, ond oherwydd y ddrama. Ia, drama! Comedi, ffars 'ta trasiedi? Mae'n anodd dewis. Ac mae hyn yn gwneud i mi feddwl o ddifri, pam yn enw popeth y bydd 'na tua 2,500 neu fwy o ymgeiswyr seneddol o fewn yr wythnosau nesa' 'ma yn baglu ar draws ei gilydd, gan arllwys celwyddau ac addewidion arnom, a chusanau ar blant bach diniwed, a'r cyfan er mwyn cael mynd i mewn i gylch y syrcau yn San Steffan?

Mae rhai ohonyn nhw yn bersonau parchus a dysgedig, ond mae'n anodd deall pam yn y byd mawr ma' nhw mor awyddus i fynd i'r fath le. Lle cwbl ddi-drefn, a lle ma'r ddynas druan 'na yn gweiddi, 'Order!' yn ddiddiwedd. Mae 'na amryw yn beirniadu'r ffaith nad oes 'na fawr o ddisgyblaeth yn ein hysgolion ni y dyddiau hyn. Wel, tydi Senedd Prydain Fach ddim yn esiampl dda cyn belled a mae cwrteisi a disgyblaeth ac ymddygiad yn y cwestiwn.

Dyma'r unig syrcau y gwn i amdani ble mae'r clowns gyda'r hawl i godi eu cyflogau eu hunain, a hynny'n sylweddol hefyd. Dau yn unig o aelodau seneddol Cymru a bleidleisiodd yn erbyn codi eu cyflogau nhw eu hunain, sef Paul Flynn a Rod Richards. Mae gen i dipyn o barch at Paul Flynn, ac mae gen i gryn dipyn o gydymdeimlad â'r nyrsus 'na sy'n dal i ddisgwyl cardod o gyflog teilwng. Beth am Rod, meddwch? Wel, ia, biti 'te!

Mae'n bur debyg yr a' i i bleidleisio 'leni eto ac yn yr un blwch y rhodda' i fy nghroes, ond mi fydda i'n simsanu weithia o wrando ar y dadlau a'r cecru, yr edliw a'r cadw sŵn. Roedd hi'n syndod i mi o sylwi ar raglen

deledu yn ddiweddar fod 'na gymaint yn yr hen wlad fach 'ma o blaid cadw teulu Palas Buckingham. Dim ond yr Albanwyr oedd yn gadarn yn erbyn eu cynnal.

Mi fydda i'n ymweld â'r Alban yn weddol aml, a bob tro rwy'n cael y teimlad fod yr Albanwyr yn fwy parod na ni i dderbyn y cyfle i roi trefn ar eu tŷ eu hunain. Mae hyn i'w deimlo, nid yn unig yn unigrwydd yr ynysoedd a'r pentrefi gwledig, ond yn y brif ddinas hefyd.

Wel, dyma fi — am y tro cynta' 'rioed — wedi gadael i wleidyddiaeth lithro allan o'r Siambar. Mae'n bur debyg y bydd rhai ohonoch yn deud 'mod i'n siarad drwy fy het ac 'na wn i ddim am y busnes. Iawn. Dwi mewn cwmni da — onid siarad drwy eu hetiau y bydd y mwyafrif o'r ymgeiswyr seneddol

yn ystod yr wythnosau nesa' 'ma?

Mae yna un cymeriad o glown sy'n ceisio mynd i gylch y syrcau rhai blynyddoedd bellach. Fuo 'na 'rioed ymgeisydd ffyddlonach na Screaming Lord Sutch. Wyddoch chi be, os etholir o dwi'n siŵr y bydd yr hen frawd o fewn dim amser wedi llwyddo i sdwffio ei hun i'r fainc flaen. Wel, os am fynnu mentro i syrcau y clowns mi fydd hi'n dda o beth i gael 'clown o frid' yno, ac mi gaiff Madam Speaker sgrechian 'Order! Order!' o hanner dydd tan hanner nos.

Mae'n bur debyg yr a' i i bleidleisio 'leni eto — o barch i 'nhad a mam. Mae'n debyg y gwna' i wyllo 'Prime Minister's Question Time' ambell dro . . . a 'Tom and Jerry' hefyd!

Oes, mae sŵn etholiad yn y gwynt. Duw a'n gwaredo.

**GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG**
Ffôn: (01286)
675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr
DEINIOLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

Bistro
LLANBERIS
Ffôn: 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwyng 20 - 70)
i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas
Partion rhwyng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion
Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro
Nos Wener olaf bob mis

SNOWDONIA PARK

WAUNFAWR Ffôn: 650218

- ★ Tŷ Rhydd ★ Bwyd Cartref ★
- ★ Prydau Plant ★ Ystafell Deulu ★
- ★ Cinio Dydd Sul Traddodiadol ★
- ★ Cerddoriaeth Fyw ★ Cwrw Go lawn ★

PLANT PENISARWAUN YN CODI PRES



Rhai o aelodau'r Urdd yn cyflwyno sic o £120, elw noson carolau a mins peis, i gronfa Tŷ Enfys, Ysbyty Gwynedd.

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod ar nos Wener, Chwefror 7, cymerwyd y gadair gan Eurwyn Jones a chyflwynodd y siaradwr, Ralph Jones, trwy roi amlinelliad cryno o'i yrfa fel addysgwr a theithiwr digymrodd. Plethwyd y ddwy elfen hon i'w sgwrs yntau yn ddeheuig pan soniodd am y profiadau rhyfeddol a gafodd mewn awyren uwch Dyffryn Nasca, taith ddeuddydd fel arall o Lima, Periw. Perswadiwyd ef i'r fenter gan ei fyfyrwyr, a chanlyniad hyn oedd iddo gael golwg ar dir-gerfiadau enfawr a llwyr enigmatig a luniwyd rhyw dair canrif Cyn Crist. O'r awyr yn unig y gellid dirnad eu ffurfiau caboledig yn dynodi coed, adar, pryfed a dyluniadau haniaethol eraill geometrig a pherffaith eu cymesuredd. Erys y dirgelwch mai os ond o'r perspectif hwn y gellid eu

gweld yn eu cyfanrwydd, ar gyfer pwy eu lluniwyd gan ddiwylliant nad oedd eto wedi meistrolï technoleg hedfan fe dybir? Cynigiwyd llawer o ddamcaniaethau ddychmygus ond fel profiad y bardd mewn cyswllt arall, erys eu harwyddocad 'yn gwestiwn oll i gyd'. Diolchwyd i'r siaradwr a phawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan Gwyn Hefin Jones.

Y Cinio Gŵyl Ddewi ar Fawrth 7 (7.30 ar gyfer 8 o'r gloch) yng Ngwesty'r Victoria fydd cyfarfod nesaf y Clwb a'r gŵr gwadd fydd y Dr Aled Lloyd Davies, Yr Wyddgrug. Bydd trefniadau gogyfer y wibdaith flynyddol, ar ddydd Sadwrn Mehefin 21, ar gael mewn da bryd cyn y dyddiad hwnnw gan y trefnydd, Ralph Jones, a hyderir hefyd roi manylion Rhaglen 1997-8 yn ystod yr un diwrnod.

IOLO HUWS-ROBERTS



Rhai o'r plant fu'n hel at gronfa Blue Peter.

Ydych chi eisiau gwella eich sgiliau ysgrifennu Cymraeg neu Saesneg?

Hoffech chi ddysgu sut i ddefnyddio prosesydd geiriau?

Ydych chi'n teimlo bod eich gwaith mathemateg yn wan?

Wel, mae yna help ar gael. Bob bore Mawrth bydd CYFLE ARALL, dan ofal Coleg Menai, yn cynnal sesiwn yn Y CABAN, DEINIOLEN o 9.30 a.m. tan 12, yn rhad ac am ddim. Bydd y myfyrwyr yn cael cyfle i ddilyn cyrsiau City & Guilds, dysgu prosesu geiriau, gwella sgiliau sillafu, darllen, ysgrifennu a mathemateg. Piciwch i mewn i weld beth sydd ar gael. Croeso i bawb o bob oedran.

Cynhelir hefyd sesiwn CYFLE ARALL yn ANGORFA (Tŷ T. Rowland Hughes), LLANBERIS bob dydd Mercher o 1 tan 3 p.m.

Os am fwy o fanylion y rhif ffôn yw: (01286) 673450.

ANTUR



WAUNFAWR

AR AGOR
LLUN - GWENER

9.00 a.m. - 4.00 p.m.

Ffôn: (01286) 650721

Dewch am dro o amgylch llwybrau cerdded ein Parc Natur i weld y gwanwyn ar ei orau yn y llynnoedd a'r bywyd gwyllt, a chael paned wedyn yn y caffi.

FFONIWCH NI

AM WASANAETH CONTRACTIO I
GREU PYLLAU BYWYD GWYLLT

CODI WALIAU SYCH

FFENSIO

A MÂN WAITH ADEILADU

AR WERTH:

CREFFTAU A JAMS CARTREF YN Y SIOP

MEINCIAU PREN

BLYCHAU NYTHU

SLABIAU A PHOTIAU CONCRID

A CHOED TÂN

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

Cerrig
Beddau

Glanhau y Garreg

ac

Ailbeintio
Llythrennau

Ffoniwch am bris

(01286) 830041



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, penblwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant — disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant
Cinio Dydd Sul

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANALOG

Pant Tirlon, Llanrug

Ffôn: (01286) 673248

Gosodwr

Nwy

Cofrestredig

Corgi



Aelod o'r
Association
of Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Rhai o brif gymeriadau y panto fu'n perfformio'n ddiweddar.

Newyddion o'r Ysgol Gymuned. 'Jac a'r Jeli Bins' oedd enw'r panto a lwyfanwyd yn ddiweddar yn y Neuadd Gymuned. Cynhaliwyd y perfformiad y pawns ar gyfer y pensiynwyr a phlant yr Ysgol Feithrin, gyda'r ddau berfformiad fin nos ar gyfer y cyhoedd. Pleser yw cyhoeddi fod y Neuadd yn llawn ar gyfer perfformiadau'r hwyr, ac o ymateb y gynulleidfa ymddengys fod pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr. Mari Gwilym oedd awdur y panto ac roedd yn bresennol i ddweud gair ar ddiwedd yr ail noson. Hoffwn ddiolch i bawb a ddaeth i'n cefnogi, gan gynnwys pawb a roddodd gymorth o bob math i ni y tu ôl i'r llwyfan. Hoffwn gdnabod cyfraniad y cawr, Mr Barry Davies, i lwyddiant y panto. Bu'n bleser gweithio gyda chi Mr Davies. Unwaith eto rhoddodd y plant eu gorau inni a chawsant fudd mawr a phrofiadau addysgol o'r gweithgareddau. Rwyf am ddiolch yn arbennig i'r staff i gyd am eu

gwaith yn paratoi'r plant ac i Mrs Thomas yn enwedig am ddod a'r cyfan at ei gilydd, ac o wneud hynny er ei bod wedi torri ei choes. Mae pob un ohonom yn dymuno gwellhad buan i chi Ann.

Diolch. Dymuna Ann Thomas ddiolch o galon i'w chydweithwyr yn yr Ysgol ac i'r rhieni cefnogol a ffrindiau am y llu cardiau, blodau, ymweliadau a'r galwadau ffôn yn dilyn ei damwain. Diolch am bob cymorth gyda'r pantomeim gan sicrhau mwynhad a llwyddiant ysgubol. Diolch blant am wneud eich rhan mor glodwiw a chofion annwyl atoch i gyd.

Urdd Adran Bentref. Chwefror 4: Cwis diddorol wedi ei baratoi gan Dyfed Jones. Chwefror 11: Daeth Mr Richard Lloyd Jones o Fethel atom. Diolch iddo am noson ddifyr. Chwefror 18: Roedd pawb ar wylidwriaeth gan fod aelod o'r heddlu o swyddfa Llanberis wedi galw heibio. Roedd mor falch o weld plant yn ymddwyn mor dda yn Urdd Penisarwaun! Chwefror 25: I ddathlu Gŵyl Ddewi bydd Mrs Judith Harding yng ngofal y noson. Mawrth

4: Gwaith llaw a cwis — Sul y Mamau gydag Ann Ifans. Mawrth 11: Gêm parasiwt. Mawrth 18: Trip i Ganolfan Plas Silyn, Pen-y-groes i sglefr rowlio.

Dymunir pob hwyl i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfodau Cylch o dan 12 ac o dan 15 oed.

Yn ystod cyfarfod o'r Urdd nos Fawrth, 18 Chwefror, cyflwynwyd siec o £120 i gronfa 'Tŷ Enfys', Ysbyty Gwynedd, sef elw'r Noson Carolau a Mins Pei a gynhaliwyd ar y cyd â'r Ysgol Gymuned. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Ysgol Sul Bosra. Cafodd y plant gryn foddhad o wyllo'r fideo 'Y Creu a'r Cwmp' ac edrychant ymlaen rŵan i weld hanes Moses, wedi iddynt orffen y stori hirfaith amdano yn y gwasanaeth Nadolig. Casglwyd £40 ac ar y cyd â rhai o ddisgyblion yr Ysgol Gymuned yn ystod Ffair yr Ysgol cyflwynwyd siec at apêl Blue Peter. Diolch i chwi blant am feddwl am eraill.

Llongyfarchiadau i Mrs Mary Davies, Llys-y-gwynt, neu Anti Mary i'r rhan fwyaf ohonom, ar ddathlu pen-blwydd arbennig. Dydach chi'n heneiddio dim, Anti Mary! Llauer o gariad a phob dymuniad da i'r degawd nesaf.

Gwellhad. Deallir fod Mr Matthews, Freshwinds, yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion ato. Mae'r gwanwyn wrth y drws a gobeithio y byddwch chi sy'n sâl yn mendio'n fuan.

Gair o Ddiolch. Dymuna Sioned Jones, Tyddyn Perthi, ddiolch i'w rhieni, teulu a ffrindiau am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

Pwyllgor Neuadd. Rydym fel pwyllgor yn hynod o falch o'r defnydd aml a wneir o'r Neuadd a'r Ystafell Gymuned. Llongyferchir staff a phlant yr Ysgol am wledd i'r llygaid a'r glust gyda'u perfformiad o 'Jac a'r Jeli Bins' — roedd yn braf gweld y Neuadd dan ei sang. Braf yw gwybod fod ieuenctid y pentref yn gwneud cymaint o ddefnydd ohoni gyda'r Urdd, Ysgol Feithrin a'r Clwb Ieuenctid. Cynhelir nifer o bwyllgorau yma, Wpan a gweithgareddau amrywiol Plaid Cymru. Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr oedd: 1, Carol Porter; 2, Eurgain Haf; 3, Sharon Owen.

Ymdeol. Bydd Dr Pamela Jones yn ymdeol ym mis Ebrill a mae rhai pentrefi yn cynnal nosweithiau cymdeithasol i ddiolch iddi. Os oes unrhyw un o'r pentref yn dymuno ymuno â hwy cysyllter â Cwm-y-glo 870550; Deiniolen 870315; neu Llanrug 673582.



Roberta Griffith a fu wrthi'n codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Undeb Ewropeaidd.

O Fôn i Frwsel. Ers mis Medi mae Roberta Griffith, Galahad, Penisarwaun, wedi bod yn gweithio yn y Ganolfan Wybodaeth Wledig Ewropeaidd Carrefour yn Llangefni — y cyntaf o'i bath yng ngogledd Cymru ac yn un o dros 85 o ganolfannau yn yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n gweithio fel rhan o dîm yn y ganolfan yn Llangefni. Ei thasg pennaf yw chwarae rhan allweddol mewn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Undeb Ewropeaidd. Mae'r ganolfan yn hybu'r ymdeimlad o ddinasyddiaeth Ewropeaidd gan hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth ar lefel gymunedol, rhanbarthol a chenedlaethol. Cafodd Roberta gyfle i ymweld â Brwsel a chyfle i fynychu fforwm arbennig 'Information to the Citizens' a drefnwyd gan Gyngor y Rhanbarthau, ble roedd pob gwlad gyda stondin a chyfle i gyfarfod y Comisiynwyr Ewropeaidd. Roedd leuan Wyn Jones ac Eurig Wyn o Gyngor Gwynedd yno ac roedd yn gyfle gwych i ddangos beth sydd gan Gymru i'w gynnig. Mae llawer mwy yn gwybod am ein gwlad fach ni wedi iddynt fod yno.

O Benisarwaun i Efrog Newydd. Mae Carol Adlam, 14 Bryn Tirion, Penisarwaun, wedi ymuno ag elusen ryngwladol o'r enw ORBIS sydd a'i chanolfan yn Efrog Newydd. Mae Carol, sy'n nyrs ers dros ugain mlynedd, wedi arbenigo mewn helpu hefo llawdriniaethau ar y llygaid ac fe'i hyfforddwyd yn Ysbyty'r Bwth, Caernarfon, Ysbyty Gwynedd ac yna yn Rhydychen. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n gweithio yn ysbyty enwog Moorfields yn Llundain, ac oddi yno yr aeth ar ddechrau'r flwyddyn hon i gychwyn ar waith anturus iawn.

Pwrpas yr elusen yw hyfforddi a rhoi gwasanaeth i bobl mewn gwledydd llai breintiedig. Mae Carol eisoes wedi gweld tlodi a dioddef mawr. Mynd o gwmpas mewn awyren y maent ac mae'r cleifion yn dod i'r awyren i gael eu triniaethau i'w llygaid. Mae'r theatr triniaethau a'r holl adnoddau angenrheidiol ar fwrdd yr awyren.

Cychwynnodd Carol o Lundain i Efrog Newydd, cafodd hyfforddiant yn Florida cyn symud ymlaen i ddechrau'r gwaith yn Cuba. Ar hyn o bryd mae hi yn El Salvador cyn symud ymlaen i Trinidad, Ewrop, Rwsia a China.

Yn ogystal â thrin y cleifion ar yr awyren mae staff meddygol y gwledydd lle y galwant yno yn cael eu hyfforddi hefyd.

Bydd Carol yn gweithio gyda'r cwmni am o leiaf flwyddyn ac mae'n gobeithio cael ychydig o seibiant i ddod adref ymhen rhyw dri mis.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412



Cast iau y panto fu'n perfformio yn y Neuadd Gymuned.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: (01286) 872390

Y Gymdeithas Undebol. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn festri Capel Coch, nos Lun, Chwefror 4. Aelodau Cwmni Drama Llanberis oedd yn cynnal y noson a chafwyd amrywiaeth o eitemau ganddynt gan gynnwys unawdau, deuawdau, eitemau offerynnol a sgetsus. I goroni'r Noson Lawen hwyliog cafwyd seremoni urddasol cadeirio bardd buddugol y gystadleuaeth gorffen limrig, ac yr oedd y beirniad yn uchel ei ganmoliaeth i fardd ifanc addawol iawn! Cynhelir swper Gŵyl Ddewi i gloi tymor y Gymdeithas yn Y Bistro, nos Fawrth, Mawrth 4.

Undeb y Mamau. Pnawn Mawrth, Chwefror 11, cynhaliwyd y cyfarfod cyffredinol blynyddol (AGM) yn festri Eglwys Sant Padarn. Etholwyd swyddogion am 1997 fel a ganlyn — Ysgrifennydd aelodaeth: Mrs Dilys Phillips; Trysorydd: Mrs Betty Humphreys; Ysgrifenyddes: Mrs Audrey Evans. Oherwydd gwaeledd nid oedd Mrs Dilys Phillips yn bresennol a chymerwyd y gwasanaeth gan y Parchg Emyr Owen.

Awgrymodd y Rheithor y byddai'n syniad i dynnu rhaglen am y misoedd nesaf yng nghyfarfod mis nesaf a chytunodd yr aelodau. Cyflwynwyd mantolen ariannol gan ein trysorydd, Mrs Betty Humphreys. Anfonwyd cerdyn i ddymuno gwellhad buan i Dilys Phillips wedi'i lofnodi gan yr aelodau. Yn ymorol am y baned roedd Mrs Muriel Morris a Mrs Audrey Evans a diolchwyd iddynt gan Mrs Jean Roberts gyda Mrs Kathleen Williams yn eilio'r diolch. Enillydd y raffl oedd Mrs Marjorie Edwards.

Jerusalem: Cynhelir cyfarfod cyntaf tymor Y Gyfeillach am 2 o'r gloch ddydd Mawrth y 4ydd o Fawrth. Bydd cyfle i'r aelodau sôn am atgofion cynnar eu bywyd, gyda thrafodaeth i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos lau, Chwefror 6, yn Eglwys St. Padarn, dan lywyddiaeth Mrs Ann Parry-Jones. Cymerwyd y gweddïau agoriadol gan y Parchg Gwynfor Williams. Y wraig wadd y mis oedd Mrs Julie Jones, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddi am y grefft o 'gwilio' gyda phapur a

dangosodd inni beth o'i gwaith ei hun, oedd yn brawf ei bod yn feistres ar y grefft arbennig hon. Diolchwyd iddi gan Mrs Margaret Griffiths ac hefyd i'r gwestwagedd am y te a'r raffl. Enillwyr raffl y mis yma oedd Mrs Ann Parry-Jones a Mrs Olwena Morris.

Anfonwyd cyfarchion i'r aelodau oedd ddim yn mwynhau yr ieuchyd gorau, ac yn enwedig i'r rhai oedd yn yr ysbyty. Llongyfarchwyd yr ysgrifenyddes, Mrs Evelyn Williams a'i phriod, Derek, ar ddod yn nain a thaid am y tro cyntaf.

Diolchiadau:

Dymuna Hugh Morris, 9 Rhes Victoria, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, cardiau, ymweliadau a'r galwadau ffôn a gafodd ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty'r Royal, Manceinion.

Hoffai Terry a Christine Saynor ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y cardiau a rhoddion caredig i'w merch Elli ar achlysur ei genedigaeth.

Hoffai Dafydd W. Roberts, 50 Maes Padarn, ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei ben-blwydd ar Chwefror 15. Diolch yn arbennig i Doreen, Delyth a Rhiannon a baratodd y parti ac i bawb a ddaeth i fwynhau'r noson.

Dymuna Ann Jones, 34 Stryd Newton, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, blodau ac anrhegion a gafwyd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed.

Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn. Enillwyr mis Chwefror oedd — £35: Mrs J. Roberts, 2 Stad Tŷ Du (210); £25: Mrs Humphreys, Pant Bryngwyn, Llanrug (212); £15: Mrs E. Williams, Glasfryn (89); £10: Mrs G. Roberts, Hyfrydle (48); £5: Mr Ellis Thomas, 13 Ffordd Tŷ Du (97). **Ysgol Dolbadarn.** Mae Mrs Nan Humphreys wedi dychwelyd i'r Ysgol ers y gwyliau hanner tymor. Mae pawb yn falch iawn o'i gweld wedi gwella, ac estynnwn groeso cynnes iddi yn ôl atom.

Capel Coch. Aeth 11 o blant yr Ysgol Sul i fwrwr Sul yng Ngholeg y Bala ddechrau mis Chwefror. Cawsant gwmni plant o wahanol rannau o'r gogledd ar y cwrs. Hwn oedd y tro cyntaf i rai fynd oddi cartref eu hunain tra roedd eraill yn hen



Ddydd Sadwrn, 1 Chwefror, bu Taith Gerdded Noddedig o amgylch Llyn Padarn gan feddygon a staff Meddygfa Llanberis. Hoffai'r meddygon ddiolch yn fawr i'r staff a drefnodd y daith ac i bawb a gerddodd; i'r rheiny fu'n gweithio mor galed i gael noddwyr; ac i bawb a gyfrannodd. Casglwyd £600.

gyfarwydd â'r Coleg. Cawsant groeso cynnes gan staff y Coleg dan arweiniad y pennaeth newydd, y Parchg Bryn Williams. Mae Bryn (mab Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Llanrug) wedi bod yn ei swydd newydd ers mis Medi. Wrth ddiolch iddo am ei groeso i'r plant nid yw'n rhy hwyr, gobeithio, i ddymuno'n dda iddo yn y swydd.

Dydd Gweddi. Cynhelir gwasanaeth blynyddol Dydd Gweddi Byd-eang y Chwirydd yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch, nos Wener, Mawrth 6. Croeso cynnes i chwirydd eglwys i'r pentref. Bydd cynrychiolwyr o'r gwahanol eglwys yn cymryd rhan yn yr oedfa.

Dillad Newydd. Mae dau o dimau pêldroed iau y pentref wedi cael dillad newydd yn ddiweddar. Cyflwynwyd crysau newydd i'r tîm dan 11 oed gan gwmni Hydro Cyntaf. Derbyniodd y tîm dan 9 oed rodd ariannol oddi wrth gwmni Magnox a phrynwyd crysau newydd â'r arian hwnnw, a phrynodd y clwb ei hunan sanau a throwsusau ar gyfer y tîm. Diolchir i'r ddau gwmni am eu nawdd.

Yr Aelwyd. Bu tîm o'r Aelwyd yn cystadlu yng ngornest pêldroed 5-bob-ochr yr Urdd yng Nghanolfan Chwaraeon Plas Silyn ym Mhen-y-groes ar Chwefror 5. Cafwyd tair gêm. Enillwyd un, collwyd un, a chafwyd un gêm gyfartal. Yn anffodus methwyd o un pwynt â chyrraedd y rownd derfynol, ond cafwyd perfformiadau da gan yr hogia. Aelodau'r tîm oedd Aaron Lloyd, Marc, Gareth, Evan a Dafydd. Mae'r Aelwyd yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher yn festri Capel Coch. Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7 o'r gloch, nos Fercher, Mawrth 4.

Ymdeoliad. Cynhelir cyfarfod arbennig i ddiolch i Dr Pam Jones am ei gwaith yn Llanberis nos Fawrth,

Mawrth 11, yn festri Capel Coch am 7 o'r gloch. Dymunir ymdeoliad hapus iddi ar ran holl drigolion y pentref. Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod. Am ragor o wybodaeth cysyllter â Meirwen Baylis, Anfield, Llanberis (870823).

Diogelwch y Plant

Mae llywodraethwyr Ysgol Dolbadarn yn bryderus am ddiogelwch plant yr Ysgol ar Ffordd Capel Coch wrth iddynt fynd a dod o'r Ysgol. Mae'r datblygiad tai newydd ar hen safle'r Clinig yn golygu bod y maes parcio yr arferid ei ddefnyddio gan rieni a fyddai'n nôl a danfon eu plant wedi ei golli. Gan fod yr holl geir erbyn hyn yn gorfod parcio ar ochr y ffordd mae'n hynod o beryglus, yn enwedig ar dywydd gwlyb pan fo, yn ddigon naturiol, fwy nag arfer o rieni yn nôl a danfon eu plant mewn car. Mae pryder hefyd am gyflymder rhai cerbydau ar hyd y ffordd o gofio nad oes palmant ar waelod gallt yr Ysgol. Y mae datblygwyr y stad tai wedi ymateb i bryderon y staff a'r llywodraethwyr trwy drefnu nad oes lorïau trymion yn ymweld â'r safle amser agor a chau'r Ysgol. Gobeithir cael trafodaeth â chynrychiolwyr Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd i weld beth ellir ei wneud i leihau'r broblem. Pryder mawr y staff a'r rhieni a'r llywodraethwyr yw y gallai damwain ddifrifol ddigwydd os na wneir rhywbeth yn fuan.

OSMOND SHAW
DEINIOLLEN

GWERTHU
- TRWSIO

★ Teledu ★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth Ffôn 24awr
(01286) 870545

IEUAN
WILLIAMS
Glanffrwd
DEINIOLLEN

(01286) 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed £££
ac yn ymestyn oes eich car

AVW YSTAD CIBYN
CAERNARFON (01286) 673559



DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259

Camera yng ngofal Valmai Williams, Hafle, 2 Rhos y Faenol, Deiniolen (871174)



Arwel, Urien, Collette a Gethin.

Y Ganolfan. Mewn cyfarfod o bwyllgor rheoli'r Ganolfan a gynhaliwyd nos Wener, 24 Ionawr, rhoddwyd ystyriaeth fanwl i'r cais a wnaed yng nghyfarfod cyffredinol blynyddol y Ganolfan ar i'r pwyllgor rheoli ystyried y priodoldeb o ymestyn Neuadd y Ganolfan.

Adroddwyd i'r pwyllgor bod tua pedwar cant o gyfarfodydd y flwyddyn wedi'u cynnal yn y Ganolfan bresennol gan fudiadau'r pentref ers ei sefydlu yn 1979, a bod y ddarpariaeth a geir yno fel pe bai yn cyfarfod â gofynion cyffredinol y defnyddwyr. At hynny teimlwyd y byddai'n annhebygol, yn yr hinsawdd ariannol presennol gyda Chyngor Gwynedd yn wynebu torriad o £6m yn ei gyllid, y gellid pwyso ar y Cyngor hwnnw i ymgymryd â chostau ymestyn y Neuadd ar hyn o bryd.

Bu codi Canolfan aml-bwrpas yn sail trafodaethau ers blynyddoedd lawer yn Neiniolen, ac efallai mai buddiol fyddai atgoffa'r pentrefwyr fod pwyllgor rheoli'r Ganolfan ar y pryd wedi adrodd i gyfarfod cyhoeddus, ar 13 Ebrill 1988, na fyddai'n ymgymryd ymhellach â cheisio codi Canolfan o'r fath gan y teimlai mai ei unig swyddogaeth oedd rhedeg y Ganolfan bresennol.

Penderfynwyd cyhoeddi yn *Eco'r Wyddfa*, er gwybodaeth y pentrefwyr, fod y pwyllgor rheoli presennol yn ailfynegi y penderfyniad uchod a adroddwyd i'r cyfarfod cyhoeddus ar 13 Ebrill 1988.

Enillwyr Clwb 100 Plaid Cymru am fis Ionawr. £10: Miss Margaret Jane Jones, Foel, Dinorwig; £5: Mrs Mary Wyn Jones, Ceris. Enillwyr mis Chwefror — £10: Mr Meirion Williams, 3 Pentre Helen; £5: Mr Richard Taylor, 7 Maes Gwylfa.

Ymdddeoliad. Gan fod Dr Pam yn ymddeol ym mis Ebrill bwriedir cynnal cyfarfod yn y pentref fel teyrnged am y blynyddoedd o wasanaeth a roddodd i'r pentrefwyr. Nid yw'n hollol glir pryd y cynhelir y cyfarfod ond gobeithir ei gynnal rhywdro ym mis Mawrth. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lona Lewis, Rhydfadog (870315). Bydd croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod ynghyd â phentrefwyr Dinorwig, Brynrefail a Phenisarwaun.

Diolch. Dymuna Glenda a Michael Jones, Cae Cerrig, Deiniolen, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a ffrindiau am



Urien.



Cenin, Ynyr a Heledd.



'Y wobwr gyntaf i mi . . . neu . . . !'

yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab, Daniel Wyn.

Y Seindorf. Bu dydd Sadwrn, 8 Chwefror, yn ddiwrnod prysur i aelodau o'r Seindorf.

Bu nifer dda yn cystadlu yn unigolion a deuawdau ym Mhencampwriaeth Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor, a bu cystadlu brwd o ddeg o'r gloch y bore tan bump yr hwyr.

Roedd tri aelod ifanc yn cystadlu am y tro cyntaf, sef Ynyr Gwyn, Heledd Bryn a Cenin Eifion, ac fe wnaeth y tri yn arbennig o dda ond heb lwyddiant y tro yma. Daeth llwyddiant i'r canlynol — Unawd dros 18: 1, Euros Williams. Unawd dan 16: 2, Jennie Lyn Morris. Unawd dan 14: 2, Arwel Williams. Deuawd dan 14: 3, Urien Sion Huws ac Arwel Williams. Llongyfarchiadau iddynt ac i bawb fu'n cystadlu.

Cydnabyddwyd dau aelod arall,

sef Goronwy Morris a Hefin Jones, y ddau ohonynt wedi bod yn aelodau ffyddlon am dros ddeugain mlynedd.

Llongyfarchiadau i Urien Sion Huws, offerynnwr mwyaf addawol y flwyddyn, ar dderbyn Tlws Coffa Mr a Mrs O. H. Jones, Bronallt.

Nos Lun, 17 Chwefror, bu'r Seindorf yn diddanu Clwb Ysgol Pendalar, Caernarfon. Noson Gŵyl Ddewi byddant yn cynnal cyngerdd yn y Rhyl.

Cynhelir y cyfarfod blynyddol nos Sul, 16 Mawrth am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau i Alaw Mari Huws a Urien Sion Huws, 8 Tai Faenol, ar basio arholiadau cerdd dan nawdd y Coleg Brenhinol yn ddiweddar.

Cyngor Eglwysig. Cynhaliwyd gwasanaeth Cymundeb yn Eglwys Llandinorwig nos Fercher, Chwefror 12, dan arweiniad y Parchg Tegid Roberts.

Bydd y cyfarfod nesaf yng Nghefnywaun nos lau, Mawrth 27 am 7 o'r gloch. Oedfa Gymundeb nos lau Cablyd fydd hon dan arweiniad y Parchg John Pritchard.

Ebeneser a Chelfnywaun. Yn ystod yr oedfa fore Sul, Chwefror 23, bu'r Dr Tudor Ellis, Y Groeslon, yn sôn am Apêl Cymorth Cristnogol, 'Law yn Llaw'. Bydd yr Apêl arbennig hon eleni yn cefnogi gwaith Cymorth Cristnogol yng ngwledydd deheudir Affrica. Roedd rhai o blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn yr oedfa hefyd. Bydd gweithgareddau arbennig yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn i gasglu arian at yr Apêl. Cofiwch am Gyfarfod Chwiorydd yr eglwys sy'n cael ei gynnal ar y pŵn lau cyntaf o'r mis; ac am y Cyfarfod Plant a gynhelir bob prynhawn lau.

I drin a thrwsio
pob math o
beriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**

40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (01248)
714043 neu
(01286) 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**
(Eric Morris)
Ffôn: (01286) 675175 a 677858

**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol
Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Bugeiliaid ar y Teledu

Mae dau ffermwyr defaid tra gwahanol i'w gilydd o ogledd Cymru yn ymddangos mewn cyfres newydd o bedair rhaglen gan HTV. Dangosir y gyfres 'Snowdon Shepherd' ar nosweithiau Mawrth gan gychwyn ar 11 Mawrth am 7.30 o'r gloch. Mae lluniau trawiadol o Eryri yn un o uchafbwyntiau'r gyfres a gafodd ei ffilmio rhwng mis Hydref 1995 a mis Medi 1996 ac sy'n rhoi sylw i'r holl gerrig milltir ym mlwyddyn y ffermwr defaid.

Gyda chymorth parod y ddau ffermwr, yr Anrhydeddus Eleanor Harper o Rhyd-ddu, a Meirion Prichard o Nant Peris, llwyddodd y cynhyrchydd Myrfyn Jones i gofnodi bywyd a dulliau gweithio'r bugeiliaid yn ystod y flwyddyn yng nghysgod tirlun Eryri sy'n brydferth a di-drugaredd yr un pryd.

Adroddir y stori gan yr artist Keith Bowen, sef y gŵr a baentiodd y casgliad o luniau pastel a brasluniau o flwyddyn ym mywyd bugail sydd hefyd i'w gweld yn y gyfres.

SGILIAU

SYRCAS A DAWNS

Ydych chi 'rioed wedi meddwl sut mae hedfan ar y trapis, chwyrlio ar raff neu sefyll ar ysgwyddau rhywun?

Bydd cwmni lleol *Stage Fright Productions* sy'n dysgu sgiliau syrcas a Danal Guy a Yael Flexer, dau ddawnsyr proffesiynol o Lundain, yn cynnal cwrs tri diwrnod yn Neuadd Chwaraeon Coleg Normal, Bangor, rhwng 24 a 26 o Fawrth.

Mae'r cwrs wedi'i anelu at

ieuenctid o 11 oed i fyny ac nid oes raid fod ganddynt brofiad blaenorol.

Byddant yn treulio tri diwrnod cyffrous yn dysgu sgiliau'r awyr, theatr corfforol a dawns gyfoes fydd yn gorffen efo perfformiad ar y diwrnod olaf.

Mae *Dawns i Bawb* (Dawns Gwynedd gynt) wedi cynnal Cyrsiau Pasg llwyddiannus ers nifer o flynyddoedd, ac eleni byddant yn cynnal un am y tro cyntaf yn Theatr Ardudwy, Harlech.

Y gost fydd £12 am y cwrs llawn. Mae'r nifer o leoedd ar y cwrs yn gyfyngedig ac felly dylai unrhyw un sydd a diddordeb gysylltu â Dawns i Bawb ar (01248) 370958 neu Kate Whelan y Cyd-lynnydd ar (01248) 870924.

GARDDIO

Yn ôl i'r ardd. Tybed? Does neb yn ddigon gwirion i fynd i'r hen ardd yna ar y fath dywydd — 'hen ardd yna' fydd pobol ddiog sydd ddim yn hoffi garddio yn ei ddweud bob amser.

Mae natur wedi deffro a beth sy'n profi hynny — yr eirlysiau bach dewr yna sy'n mynnu blodeuo ar waethaf y tywydd gerwin a stormus a gawsom. Mae eu gweld yn codi calon rhywun, ac mae'r cennin Pedr hefyd yn mynnu torri drwodd. Rhywbeth i edrych ymlaen ato. Bydd prysurdeb mawr at y mis nesaf rŵan, sef hau yn y tŷ gwydr.

Mae sôn am yr eirlysiau yna wedi tgroi fy meddwl at farddoniaetho waith Waldo Williams a gefais gan ffrind. A oes gan rywun arall farddoniaeth am y blodau dewr yma. Beth amdani Selwyn?

EIRLYSIAU

Gwyn, gwyn

Yw'r gynnar dorf ar lawr y glyn.

O'r ddaear ddu y nef a'u myn.

Golau a'u pryn o'u gwely pridd

A rhed y gwanwyn yn ddi-glwy

O'u cyffro hwy uwch cae a ffridd.

Pur, pur

Wynebau perl y cyntaf fflur.

Er eu gwyleidd-dra fel y dur

I odde' cur ar ruddiau cain,

I arwain cyn y tywydd braf

Ymdrech yr haf. Mae dewrach 'rhain?

Glân, glân,

Y gwynder cyntaf yw eu cân.

Pan elo'r rhannau ar wahân


Ail llawer tân fydd lliwiau'r tud.

Ond glendid, glendid yma dardd

O enau'r Bardd sy'n llunio'r byd.

WALDO WILLIAMS

DRAENOG



Clywais sôn fod un o hogia Waunfawr wedi syrthio i gysgu ar ben y fridge ar ôl iddo gael gormod o gwrw wrth wyllo'r gêm rygbi. Clywais hefyd y bu'n rhaid cael craen Blake & Arnold i'w dynnu i lawr.

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat — nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI 'BWYTY ERYRI'
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati

Peis, Rholiau Sosej

Pasteiod, Teisennau Hufen

Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

FFYNNON CEGIN ARTHUR



King Arthur's Well.

Perchennog y llun o Ffynnon Cegin Arthur oedd Griffith W. Thomas, Y Fachwen. Roedd yn un o blant Penisarwaun ac fe'i ganed yn Nhau Newyddion gan dreulio ei blentyndod yn Nhau Arthur. Mewn rhai blynyddoedd fe symudodd y teulu i Lle Caradog, Deiniolen, ac yna i'r Allt-ddu, Dinorwig. Wedi iddo briodi fe ymgartrefodd ym Mron y Graig, Fachwen, lle y treuliodd weddill ei oes.

Gwnaeth lawer iawn ym myd cerddoriaeth ac yn arbennig yn Eglwys St. Mair, Dinorwig, ble bu'n gôr-feistr am bron i 40 mlynedd. Gwnaeth lawer efo'r canu yn Eglwys

Llandinorwig, yn ystod cyfnod y Parchg James Salt, cyn symud i St. Mair.

Bu'n aelod o Parti Elidir am flynyddoedd ynghyd â J. Pierce Jones, Deiniolen; Evan Jones, Brynrefail; J. Maldwyn Roberts; a'r cyfeilydd R. Lloyd Roberts (Ffrwd Alaw), Brynrefail. Bu tair merch â chysylltiad a'r parti, sef Mrs Emily Roderick Jones, Llanberis; Mrs M. Williams (Myfanwy o'r Bryn), Brynrefail; a Mrs Katie Jones, Llanberis (mam Arwel Hogia'r Wyddfa).

Rhoesant wasanaeth da i'r cylch drwy gynnal cyngerddau at achosion da — yn enwedig pan fyddai chwarelwyr yn wael ac angen cymorth. Buont yn crwydro llawer iawn yn Sir Fôn, Llŷn ac ardal Bae Colwyn

Mae rhai o'r teuluoedd yn byw yn y cylch o hyd. Gwnaeth Griffith Thomas waith da hefo'r

'Ambiwlans'. Treuliodd gyfnod y Rhyfel yn Ysbyty Milend yn Llundain ac yna mewn ysbyty yn Ffrainc am dair blynedd ble y cyfarfu â Chymry, a rhai ohonynt yn ei adnabod. Bu mewn angladd un ohonynt, sef Llystyn Jones, Deiniolen, a chawsant ganu 'O fryniau Caersalem' yn Gymraeg uwch ei fedd.

Bu'r profiadau erchyll a gafodd yn ystod ei flynyddoedd yn y fyddin yn gymorth wedi iddo ddod yn ôl i'r chwarel drwy roi cymorth mewn damweiniau. Roedd galw mawr am ei wasanaeth yn yr ardal hefyd yn ystod gwaeledd ffrindiau a chymdogion.

Gwnaeth yn fawr o'i dalentau er mai byr fu ei oes gan iddo farw yn 59 mlwydd oed yn 1942. Roedd ardal y Fachwen yn agos iawn at ei galon a bu colled fawr ar ei ôl, ac yn arbennig felly ar ei aelwyd yn Bron Isgraig, lle cafodd ei ddwy ferch gartref gwerth i'w gofio.



Y FFERIAU I FÔN gan T. Meirion Hughes.

Dyma'r ail gyfrol yn y gyfres 'Caernarfon Ddoe' gan T. Meirion Hughes i gael ei chyhoeddi o dan nawdd Siambr Fasnach Tref Caernarfon. Mae'r gyfres yma'n argoeli'n dda fel cronicl o hanes Caernarfon yn y dyddiau a fu, ac mae'r Siambr Fasnach i'w llongyfarch am ymgymryd â'r fenter.

Yn y gyfrol hon mae'r awdur yn ceisio rhoi tipyn o flas ar hanes fferiau Môn ac Arfon dros y canrifoedd ac yn dangos eu pwysigrwydd i economi'r dref. Ceir hefyd bennod yn olrhain y cefndir hanesyddol ynghyd â manylion am nifer o ddamweiniau angeuol a ddigwyddodd dros y blynyddoedd. Mae'r gyfrol yn dangos yn wir mor ddiystyriol oedd perchnogion y fferi ar adegau am ddiogelwch y teithwyr drwy orlwytho'r cychod. Mae llawer o drigolion bro'r Eco yn cofio am 'Stemar Bach Sir Fôn' rwy'n siŵr ac erbyn heddiw'n gofidio'i cholli. Gwnaeth ei siwrnai olaf ar ddydd Gwener, 30 Gorffennaf 1954, ond trwy'r gyfrol ddarllenadwy hon gellir ailfyw dyddiau'r 'Stemar Bach'. Dyma lyfr a ddylai fod gan bawb sydd ag atgofion melys ganddynt am y dyddiau hynny.

Cyhoeddwyd: Siambr Fasnach Tref Caernarfon. Pris: £2.75.

EDGAR W. PARRY
Cadeirydd Cymdeithas Hanes
Teuluoedd Gwynedd

DRAENOG



Digon o bres gan y stiwdants 'ma mae'n rhaid. Glywsoch chi am y darpar athro o Lanberis oedd wedi anghofio codi arian cyn mynd allan am y noson? Penderfynodd o a'i ffrind fynd i siop Spar er mwyn cael 'cashback', ond wyddai'r creadur ddim fod angen gwario gwerth hyn a hyn cyn cael pres. Pan ddaeth allan efo arian parod, roedd o hefyd yn cario tŷn o gwrw, brwsh dannedd, past dannedd a sebon 'molchi' — a doedd o ddim angen yr un ohonyn nhw! Ac yntau'n gobeithio bod yn athro ymarfer corff, gallasai rhywun feddwl y byddai sebon wedi bod o fudd iddo ar ôl yr holl wersi mwldlyd yna ar y caeau chwarae!

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

neu W. G. Roberts (Wil Korea) 676741

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio



★ Porches
★ Byrddau Ffasia
★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O BROFIAD YN Y MAES

DRAENOG



Gweld yn y papur y dydd o'r blaen bod y Cyngor yn colli buniau olwyn yn rheolaidd, a bod rhai ohonynt yn cael eu troi at iws arall. Clywed wedyn bod yna un ohonynt yn cael ei ddefnyddio fel rowndabowt newydd ar stad fechan tua thopiau Llanberis 'na. Yn ôl pob tebyg roedd perchennog y bŷn wedi ei adael yn y lôn am wythnos, a phob car yn mynd yn ddel o'i amgylch. 'Dwn i ddim pwy oedd wiriona — perchennog y bŷn a'i gadawodd yng nghanol y lôn yntau'r cymydog a'r cydweithiwr a lanwodd y bŷn â dŵr a disgwyl — yn ofer — am ddyddiau i weld y creadur yn stryffaglo wrth symud y bŷn trwm.

+

J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)

Alwyn a Sarah Jones

RACCA PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm

★ Wyau Free Range
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263



Plant Ysgol Feithrin Cwm-y-glo fu'n cymryd rhan mewn beicio noddedig yn ddiweddar.

Newyddion o'r Ysgol. Rhwng diwedd Ionawr a chanol Chwefror mwynhaodd plant Bl. 5 a 6 gyfres o gyrsiau sgiliau rygbi gyda Mr Alan Thomas, Hyfforddwr Rygbi Ysgolion Gwynedd. Diolch yn fawr iddo am ei hyfforddiant gwerthfawr.

Nos Wener, Ionawr 24, cynhaliwyd noson o Gwis hwyliog yn y Fricsan. Trefnwyd raffl a gêm gan Gymdeithas Rhieni/Athrawon. Diolch yn fawr i bawb a gefnogodd y noson a llongyfarchiadau i'r tîm buddugol — doedd dim un rhiant nac athrawes ynddo!

Braf oed cael croesawu Miss Iona Lewis o Lanrug i ddosbarth y Babanod. Roedd hyn yn wythnos o brofiad gwaith Prosiect 2000 Nyrsio. Pob dymuniad da yn y dyfodol Iona a diolch am dy gymorth.

Cafodd Rowena, Cathi ac Ameli o Bl. 6 gyfle i fwynhau pedwar diwrnod yng Ngwersyll yr Urdd yng

Nglan-llyn, yng nghwmni plant ysgol Llanrug. Diolch o galon i Mr Wyn a Mr Griffith am ofalu amdanynt.

Enillwyr gwobrau Clwb yr Ysgol am fis Ionawr oedd Mrs Judith Pritchard, Brynrefail a Mrs Medi Jones, Dôlafon. Llongyfarchiadau iddynt.

Croesawyd y Rhingyll Lewis o Fethel i gyfarfod o'r Urdd. Bu'n sôn am ei waith fel plismon yn y gymuned. Cafodd ambell un gyfle i fod mewn cyffion ac fe gymerwyd olion bysedd un o'r athrawon!

Mae cyfnod Eisteddfod yr Urdd wedi cyrraedd. Dymuniadau gorau i'r parti dawnsio gwerin, parti llefaru a'r côr ynghyd â nifer o unigolion fydd yn cystadlu.

Llongyfarchiadau i mam a dad, taid a nain, sef Idwal a Mair, Cwm, ar ddathlu eich Priodas Aur, oddi wrth Gwyn, Dwywen, Blodwen Ceiriog, Meirion, Eirian a Dyfrig, Keith, Ian, Sian, Carwyn, Bethan, Owain, Elin, Martyn, Iestyn ac Ellen, a'r ddau gorŵyr Mathew a Dafydd.

Ffarwelio. Nos Fercher, 19 am 7 o'r gloch yn y Ganolfan Gymdeithasol cynhelir noson i ffarwelio a'r Dr Pam Jones. A fusaai pawb sydd am fod yn bresennol cystal a chysylltu â Mrs Vera Price (870550) neu Mrs Margaret Williams (870730) cyn gynted ag sydd modd, os gwelwch yn dda.

Undeb y Mamau. Cafwyd cyfarfod yn Hafan Elan, Llanrug, nos Lun, 3

Chwefror. Yr oedd yn noson stormus iawn ac roedd amryw o'r aelodau'n absennol. Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Gwyneth Roberts, Mrs Dorothy Jones a Mrs M. Roberts. Trafodwyd rhai materion a godai o'r pwyllgor a gynhaliwyd ym Mangor, Tachwedd 26.

Cyflwynwyd y wraig wadd, sef Mrs Gledhill o Lanfairpwll, gan Mrs

M. Latham. Cafwyd noson ddiddorol yn trafod yr amgylchfyd yn awr ac yn y gorffennol. Diolchwyd iddi gan Mrs Latham. Yn gofalu am y baned roedd Mrs J. Ransom a Mrs M. Latham. Rhoddwyd y raffl gan Mrs E. Taylor ac fe'i henillwyd gan Mrs Marjorie Roberts. Bydd Cymun y Grawys yn cael ei weinyddu yn Hafan Elan, nos Lun, 3 Mawrth.



Mair ac Idwal Williams fu'n dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch. Ffôn: (01286) 870576

Y Gymdeithas Undebol. Yn ddiweddar cafwyd dwy noson ddiffr dros ben. Nos Iau, Ionawr 23ain cafwyd rhaglen adloniadol amrywiol gan gynnwys cwis cerddorol gan barti Clychau'r Grug o dan arweiniad Mrs Glenys Griffiths. Mwynhad pur oedd gwrando arnynt. Llywydd y noson oedd Mrs Alice Griffith a thalwyd y diolchiadau gan Glyn Tomos.

Yna ar nos Iau, 6ed o Chwefror, cafwyd cwmni Neville Hughes sy'n adnabyddus fel aelod o'r grŵp Hogia Llandegai. Dyma oedd awr a hanner i'w gofio. Adroddwyd straeon digri a difyr am hynt a helynt yr Hogia dros gyfnod o ddeugain mlynedd yn diddanu cynulleidfaoedd ar hyd a lled Cymru. Fel y gellid tybio canwyd sawl cân o eiddo'r Hogia a phawb yn cael cyfle i gyd-ganu. Llywydd y noson oedd Miss Marian Jones a

diolchwyd gan Glyn Tomos.

Erbyn i chwi ddarllen y nodiadau hyn bydd aelodau'r Gymdeithas wedi cael cwmni Mr Ralph Jones o Lanberis, ar nos Iau, Chwefror 20fed; ac yna ar y 6ed o Fawrth daw tymro y Gymdeithas i ben gyda chinio Gŵyl Ddewi yng Ngholeg Pencraig, Llangefni.

Diolch. Dymuna Betty a John Roberts, 11 Maes Eilian, ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion, blodau, ymweliadau a'r galwadau ffôn tra yn yr ysbyty ac ar ôl dod adra. Diolch i staff Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, a Ward 6 Ysbyty Glan Clwyd am eu caredigrwydd tra'n derbyn gofal yno. Llauer o ddiolch i feddygon Llanberis ac i'r gweinyddesau. Diolch o galon i bawb.

Cynhelir

BINGO

yn YSGOL GYMUNED

CWM-Y-GLO

nos Wener, 14 Mawrth

am 7 o'r gloch

Bydd yr elw tuag at Gronfa Plant yng Ngwynedd gyda Chancr a Leukaemia

Croeso cynnes i bawb

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.

Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

GORSAF BETROL
Esso BERAN
DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantaſon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556



Shaun Foulkes o Lanberis yn derbyn beic mynydd yn wobwr yn raffl Antur Waunfawr oddi wrth prifweithredwr yr Antur, Menna Jones.

Diolch i swyddogion Capel Croesywaun am gael plygu rhifyn Ionawr o'r Eco yn y festri ac i'r criw ddaeth yno i blygu.

Diolch. Dymuna Martin a Belinda Rowlands, 1 Rhes Eilian, ddiolch i bawb am y llw cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Dion Meredydd.

Eisteddfodol. Llongyfarchiadau i ddisgyblion Syr Hugh Owen a fu'n cymryd rhan yn eisteddfod yr ysgol. Dymunwn yn dda i bob aelod o'r Urdd fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch.

Damwain. Dymunwn wellhad buan i Ceirien Rowlands, Bryn Golau, a anafodd ei goes tra'n chwarae yn y

tîm pêl-droed yn erbyn Llanrug yn ddiweddar.

Adref o'r Ysbyty. Croesawn Mrs Alice Johnson, Tŷ Gwyn, a Mr R. W. Roberts, Bryn Golau, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad iechyd buan i'r ddau.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at bob un sydd yn wael ac yn gaeth i'w cartrefi yn y pentref.

Y Gymdeithas Lenyddol. Yn y cyfarfod yn y Ganolfan nos Lun, Chwefror 10, treuliodd noson ddifyr yn gwrando ar brofiadau Mr a Mrs Bob Eaglestone tra ar bererindod feicio o ogledd Ffrainc i Santiago di Compostell, gogledd Sbaen, yn Awst-Medi 1973. Ar siwrne o rhyw 900 milltir mewn dros fis, ymwelwyd â llawer man diddorol a dangosodd y sleidiau lliw cain a gwelwyd y rhyfeddodau yn eu gogoniant. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Gwilym Williams a chynigiwyd y diolchiadau gan gadeirydd pwyllgor y Gymdeithas, Mr Iolo Huws-Roberts. Yn y cyfarfod manteisiwyd ar y cyfle i ddiolch i Gyngor Cymuned Waunfawr am ei rodd hael o £60 i goffrau'r Gymdeithas. I gloi, cyhoeddwyd bod y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Mawrth 10, pryd y ceid sgwrs ar 'Crwydro' gan Dei Tomos, gyda Mrs Meira Turner yn cadeirio. Taer erfynnir am gefnogaeth deilwng ar y noson gan fod iddi rhyw fath ar arwyddocad deuluol fel dathliad o wyl ein

DRAENOG



Mae'r Draenog bob amser yn falch o glywed am bobl sy'n mwynhau ei straeon. Un o'r rheiny yw John Closs. Digon teg felly yw bod y Draenog yn dymuno gwellhad buan iddo wedi ei anffawd yn ddiweddar. Rhyw faglu dros ei draed ei hun wrth dynnu ei esgidiau wnaeth o, mae'n debyg.

PWY? BLE? PAM?



Yn anffodus nid anfonwyd manylion ar y llun hwn atom. Pwy y'r rhain? Be mae'n nhw yn ei wneud? Lle a phryd tynnwyd y llun? Rhowch wybod erbyn y rhifyn nesaf.

nawddsant, a darperir lluniaeth ysgafn ar y diwedd.

Antur Waunfawr. Nos Fawrth, Rhagfyr 17, cynhaliwyd noson mins peis a phwnsh Antur Waunfawr. Yn ystod y noson tynnwyd Raffl Antur Waunfawr. Yr enillwyr oedd — 1, Beic Mynydd: Joyce Foulkes, Llanberis; 2, Hamper o gynnyrch yr Antur: Gwen Davies, Pen-y-groes; 3, Bwrdd Adar: June Jones, Biwmares; 4, Llyfr Y Waun a'i Phobl: Gwawr Williams, Y Felinheli.

Dymuna'r cyfarwyddwyr ddiolch

yn arbennig i Nigel Thomas o Bontnewydd am roddi'r Beic Mynydd fel rhodd i'r cwmni ar gyfer y raffl.

Diolch. Dymuna Fflŷr Llywelen, 22 Tref Eilian, ddiolch i'w mham a'i thad, perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llw cardiau, anrhegion a'r arian a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn un ar hugain oed ar Ionawr 14. Diolch yn fawr iawn.

DRAENOG



Clywais am ddyn busnes o ochr isa'r fro hon oedd wedi bod yn ymweld â Chwm-y-glo ac wedi darganfod ar ôl iddo gyrraedd adref fod Twm ei gi yn dal yn Cwm. Dim problem — a hithau'n ddiwrnod Dolig — gyrodd dacs i'r Cwm i ddod a Twm adref. Os mewn trafferth — **FIX IT** trwy alw am dacs!

DAFYDD OWEN TRYDANWR

Pob math o waith trydanol a Larwmau Lladron

Aelod o'r



11 Rhes Faenol
LLANBERIS
Ffôn: (01286) 871680



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI

CELTIC WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch — 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Uned 5, Griffiths Crossing
Llanfair-is-Gaer, Caernarfon



Sefydlwyd
1980



Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: (01286) 870253

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed. Ffôn: (01286) 677263



Ffarwelio â Dr Pamela Jones. Mae noson wedi'i threfnu i ffarwelio â Dr Pam gan ei bod yn ymddeol o'i swydd fel meddyg teulu i'r pentrefi lleol. Bwriedir cael noson agored gyda phaned a chacen fel y gall pawb gael sgwrs a chyfle i ddiolch iddi am ei gwasanaeth ar hyd y blynyddoedd. Mae croeso mawr i bawb i ddod i festri Capel y Rhos, Pontrhythallt, nos Wener, 14 Mawrth am 7 o'r gloch. Os mynnwch fwy o wybodaeth cysylltwch â Mrs Beryl Thomas ar 673582, os gwelwch yn dda.

Diolchiadau. Dymuna Leon a Linda Shudlack, 8 Stad Minffordd, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch am y cardiau, anrhegion dderbyniwyd ar achlysur eu priodas arian yn ddiweddar.

Dymuna Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, ddiolch i bawb am anrhegion a chardiau Nadolig a dderbyniwyd dros yr Ŵyl. Diolch hefyd am yr arian ar gyfer rhoi blodau ar fedd Len.

Dymuna Maggie Lewis, Llanrug, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch am y cardiau, anrhegion a'r arian. Diolch cynnes iawn i Gapel y Rhos am y blodau hardd ac i Rol Williams am ei gyfarchion. Diolch arbennig i'r plant, Nowi, Orwig, Gordon, Mary, Helen, Margaret a Bryn am y blodau a'r parti yng ngwesty'r Victoria. Diolch yn fawr.

Gwellhad. Dymunwn wellhad buan

i Mrs Megan Pritchard, Golygfa, Stad Brynmoelyn a Mr Alan Vincent Owen, 4 Rhos Rug.

Profedigaeth. Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Oswald Davies a'r teulu, Llain y Delyn, Ffordd Glan Moelyn yn eu profedigaeth o golli brawd Mr Davies a oedd yn byw yn y Bala.

Llongyfarchiadau i Mrs Maggie Lewis, Madryn, Ffordd yr Orsaf, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed. Cafodd barti mawr gyda'r teulu a bu llu o'i ffrindiau yn ymweld â hi i ddymuno'n dda iddi.

Llongyfarchiadau hefyd i Terry Lloyd Jones, Llys Elen, Ffordd yr Orsaf, ar dderbyn ohono dystysgrif am ei wasanaeth am ddeng mlynedd ar hugain i'r Gwasanaeth Iechyd.

Genedigaeth. Ganwyd mab bach i Derek a Hefina, Glan Moelyn. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

Ysgol Gynradd Llanrug. Daeth Mr Gareth Williams o gwmni BT i'r dosbarth derbyn er mwyn dangos pob math o gyfarpar technegol. Cafodd y plant gyfle i ddeialu a sgwrsio ar y ffôn ac hyd yn oed i alw '999' gan ofyn am gymorth (dychmygol wrth gwrs!!) y frigid dân, heddlu ac ambiwlans.

Pob lwc i aelodau'r Urdd yr Ysgol fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch ar 21 Chwefror a 1 Mawrth. Cewch eu hanes yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Merched y Wawr. Estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Mair Huws, a chychwynnwyd y cyfarfod gyda'r emyn wladgarol 'Finlandia'. Anfonir cofion anwyl at Miss Megan Humphreys sydd ar hyn o bryd yng nghartref Dwyntfa. Ein cofion anwylaf hefyd i aelodau eraill o'r gangen nad ydynt wedi bod yn dda yn ddiweddar.

Fe gasglodd Mrs Beryl Thomas y swm anrhyddedus o £46 yn dilyn Distawrwydd Noddedig at yr Anabl — tipyn o gamp aros yn fud am ddwyawr!

Cynhelir Bwrlwm Bro y mudiad ar 16 Mai a gobeithir cael cynrychiolaeth o'r gangen. Y mae is-bwyllgor chwaraeon yn cynnal Dawnsio Gwerin yng ngofal Bethanne Williams yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, Ebrill 18, am 7 o'r gloch. Bydd lluniaeth yn gynwysedig yn y pris o £6.

Gwestai'r noson oedd Bethan



Rhai o blant y dosbarth derbyn gyda Mr Gareth Thomas o gwmni BT.

Jones Parry gyda'i phigion hi o bapurau newydd. A phwy fuasai'n meddwl fod ffordd arbennig o ddarllen papurau newydd hyd yn oed! Ond o wrando ar Bethan mor fyrlymus ar y radio yn y boreau, oes mae yna sgil wrth ddarllen papurau newydd. Bydd yn codi am 5.30 y bore gan ddarllen a sganio hyd 6.40; yna darllen yn fyw ar yr awyr am 7.18. Y mae'r dudalen flaen yn holl bwysig, rhaid denu'r darllenwyr yn enwedig os ydych yn prynu papur dyddiol. Difyr oedd gwybod pa bapurau dyddiol a ddarllenid gan yr aelodau — *Daily Post*, *Daily Mail*, *Daily Star* ond dim sôn am y *Sun*. Oedd roedd rhai yn dewis y *Telegraph*, *Guardian* a'r *Times*. Ond pa bapur Cymraeg a ddewisir os yw'r cysodi, storïau, colofnau llythrau, hysbysebion, chwaraeon, croeseiriau, neu hyd yn oed y genedigaethau a'r marwolaethau o ddiddordeb, yna hir oes i'r papurau newydd. Byddai adloniant yn dlotach hebddynt. Diolchwyd i Bethan am noson hynod ddifyr gan Phyllis Elis. Enillwyd y raffl gan Menna Williams — rhywbeth i'w gwneud hi deimlo'n braf mewn cadair gyfforddus! Diolchodd Bethanne i Gwenda, Carys ac Eirianwen am wneud y baned.

Cynhelir Eisteddfod Cylch yr Urdd, Sadwrn, 1 Mawrth. A fuasech garediced â dod a'ch cyfraniadau i Ysgol Brynrefail erbyn 9.30 o'r gloch fore Sadwrn neu i gartref Meirwen Lloyd y noson cynt.

Dethlir Gŵyl Ddewi nos Fawrth, 11 Mawrth, gyda'r grŵp 'Cywair' a rhai o aelodau'r gangen.

Sioe Gelf. Difyr oedd gwrando ar Tudur Parry yn sôn am ei ddiddordeb anghyffredin o greu pethau hynod ddiddorol a chywain allan o hen

greiriau a brynai mewn siopau ail-law neu sêl cist car. Y mae Ella ac yntau yn brysur yn gwneud pethau cywain o wydr lliw yn eu stiwdio yn Llundain. Y mae galw mawr am eu lampau a'u clociau. Er mai yn Llundain y mae ers rhai blynyddoedd bellach, y mae'n mwynhau dod adref i Lanrug pob cyfle a gaiff.

Plaid Cymru: Nos Fercher, Chwefror 19, cafwyd cyfarfod o'r gwneud y Nghanolfan Penisarwaun, gyda darlith arbennig gan y cerflunydd John Meirion Morris ar gelfyddyd y Celtiaid. Orlheiniodd gyda sleidiau y syniadau symbolaidd a amlygir yn eu gwaith ar hyd y canrifoedd, o'r cyfnod cynhanesyddol i'r cyfnod Cristnogol gan gymharu'r un syniadau â'r rhai a welir mewn chwedloniaeth Gymraeg. Uchafbwynt y ddarlith oedd sleidiau o waith cerflunio'r darlithydd ei hun, y rhan fwyaf ohonynt wedi eu seilio ar gymeriadau'r Mabinogion, ac yn dangos parhad a datblygiad y syniad Celtaidd. Yn olaf cawsom y fraint o weld darlun o'i waith diweddaraf, 'Aderyn Rhyddid', y canodd y prifardd Ieuan Wyn gerdd wefreiddiol iddo. Edrychwn ymlaen at weld y cerflun cyfareddol hwn yn Eisteddfod y Bala.

Enillwyd y raffl gan Megan Williams, Y Felinheli.

Cyhoeddwyd bod tocynnau yn awr ar gael i'r Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria nos Fercher, Mawrth 5, am 8 o'r gloch. Y gŵr gwadd fydd y Cynghorydd Alun Ffred, a bydd adloniant gan Manon Llwyd. Gellir cael tocynnau gan yr Ysgrifennydd, Olwen Llywelyn (ffôn: 650200).

Llongyfarchiadau i Dylan Williams, Y Berllan, ar gyrraedd ohono ei ben-blwydd yn 18 oed. Ymlaen rŵan Dylan.

Damwain. Drwg gennym glywed fod Mrs W. O. Roberts, Manod, wedi cael damwain, ond da clywed ei bod yn gwella yn raddol. Mae lle gwag yn sêl fawr Capel y Rhos hebddi.

I GYFARCH

Mrs MAGI LEWIS, MADRYN, LLANRUG AR DATHLU EI PHEN-BLWYDD YN 90

Pleser mawr i mi fel amryw
Eich llongyfarch y dydd hwn,
Dyna fyrdwn pawb o'r teulu
A'ch holl ffrindiau lu fe wn;
Wedi cyrraedd carreg filltir
Hynod iawn yn naw deg oed,
Dal o hyd yn sionc ac ifanc
Dal o hyd yn ysgafn droed.

Dros flynyddoedd hir yn gwarchod
Deulu dedwydd fuoch chwi,
Fel brenhines yn gofalu
Ac yn gwrando ar eu cri;
Ac i blant y plant, wrth reswm
Nid oes neb 'run fath a Nain,
Parod wên a gair o gyngor
Os yn gofyn a gaiff rhain.

Mynd i'r Bingo, do yn gyson,
Ennill ambell dro wrth gwrs,
Os na ddaeth 'run gwobr iddi
Daeth mwynhad o lawer sgwrs;
I Awstralia bell am gyfnod,
Ac i Jersey, do, sawl gwaith,
Mwynhau bywyd hyd yr eitha'
Dyna wnaeth ar hyd y daith.

Naw deg oed yw Mrs Lewis,
Eto'n heini ac yn llon,
Tybed oes 'na wraig yng Nghymru
'N dal mor ifanc ag yw hon?
Llongyfarchion ichwi heddiw
Wrthi'n dathlu efo'r plant,
A dymuniad pawb wrth reswm
Eto gwrdd — i ddathlu'r cant

ROL WILLIAMS

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790


Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO
YN ABBEY ROAD



BANGOR
(01248)
354646



Douglas Ellis o Amgueddfa Lechi Cymru yn tanio injian stêm fechan ar gyfer arddangosfa trenau bach a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa yn ystod mis Chwefror.

TYMOR RASUS MYNYDD

Mae'n ymddangos nad oes dechrau na diwedd i'r tymor rasio mynydd bellach, gyda rasmus yn cael eu cynnal ym mhob mis o'r flwyddyn. Ond mae tymor y pencampwriaethau ar fin cychwyn, a bydd yn parhau am y rhan helaethaf o'r flwyddyn. Bydd y ras gyntaf ym Mhencampwriaeth Cymru yn cael ei chynnal ddydd Sadwrn, 8 Mawrth, yn Rhewl ger Llangollen. Ras ganolig fydd hon, gyda saith milltir a hanner o redeg a dwy fil chwe chan troedfedd o ddringo. Bydd yn cael ei dilyn bythefnos yn ddiweddarach gan Ras Pen Cerrig Calch ger Llanbedr yn nyffryn Wysg, de Cymru — ras fer o dair milltir ond gyda dringo serth iawn. Bydd yn rhaid disgwyl wedyn hyd fis Mehefin am y ddwy ras nesaf yn y gyfres.

Yn lleol, cynhaliwyd Ras Moel-y-

ci, Rhiwlas, fore Sadwrn, 22 Chwefror, a'r ras leol nesaf fydd Moel Wnion o Rachub, Bethesda ar Sadwrn olaf mis Mawrth.

Bydd nifer o redwyr lleol yn edrych ymlaen am dymor llwyddianus eto eleni, a Chlwb Rhedwyr Eryri yn gobeithio efelychu eu camp y llynedd o ennill popeth ym Mhencampwriaethau Cymru — dynion, dynion dros 40 oed, dynion dros 50 oed, merched, a gwobr y tim ym mhob categori hefyd! Eleni hefyd, wrth gwrs, mae'r Clwb yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn — yn un ar hugain oed. Mae'n sicr y bydd dathliadau arbennig yn cael eu cynnal tua diwedd y flwyddyn; dim ond gobeithio y bydd yr un llwyddiant â'r llynedd i goroni'r cyfan.

GRADD ALLANOL Prifysgol Cymru

A hoffech wireddu breuddwyd oes?
A hoffech wynebu her addysg brifysgol?
A hoffech astudio ar gyfer gradd BA?

Os mai ymateb cadarnhaol fu gennych i'r cwestiynau hyn, yna mae gan Brifysgol Cymru y cynllun delfrydol ar eich cyfer chi.



Mae'r RADD ALLANOL yn gynllun gwyb ar gyfer y sawl sydd am ddilyn cyrsiau prifysgol yn ystod ei oriau hamdden ac yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau dan ofal rhai o ddarlithwyr mwyaf profiadol Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

ANFONWCH NAWR am restr gyflawn o'r cyrsiau a gynigir, a manylion pellach.



Prifysgol Cymru
Aberystwyth
The University of Wales

P Lynne Jones, Darlithydd â gofal y Radd Allanol, Prifysgol Cymru, Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 2AX.

Ffôn: 01970 622049/50 E-bost: ppj@aber.ac.uk
Tudalennau ar y We:
<http://www.aber.ac.uk/~cymwww/Allanol/>

Yn Hybu Rhagoriaeth mewn Dysgu ac Ymchwil

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna
679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Llongyfarchiadau i Eirian Roberts, Sea View, sydd wedi llwyddo yn ei arholiadau i fod yn nys gofrestrdig (RGN). Bydd y gofal a'r safon uchel yn parhau ganddi ond bellach caiff ei chydabod gan y llythrennau.

Tynfa Fisol. Enillwyr tynfa fisol Cymdeithas y Cae Chwarae am fis Chwefror oedd — £40: Ceri P. Thomas, 4 Bryn y Gof (91); £25: Harriet Roberts, Sea View (43); £15: Margaret Hensworth, The Barn, Rhos-bach (7); £5: Tony ac Eirian Griffiths, Annedd (50).

Gwasanaethau'r Capel. Disgwylir y canlynol i wasanaethu yn ystod mis Mawrth:

- 2: Parchg W. R. Williams (2)
- 9: Parchg Trefor Jones (2)
- 16: Parchg W. R. Williams (2)
- 23: Parchg Ronald Williams (2)
- 30: Sul y Pasg. Parchg S. O. Hughes (10)

Cefnogwch ein Hysbysebwy

CEUNANT

Trystan a Sioned Larsen
Bodafon. Ffôn: (01286) 650799

Gwellhad. Da gennym ddeall for Miss Megan Humphreys ychydig yn well. Mae hi'n awr wedi ymgartrefu yng nghartref Dwynfa, Bontnewydd. **Dymuniadau Da.** Dymunwn pob dymuniad i Mrs Nan Humphreys sydd wedi ail-ddechrau dysgu yn Llanberis.

TAN Y COED

Anwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: (01286) 872276

Llongyfarchiadau i deulu Marvista, Ceunant. Ganwyd mab, Dafydd Lewis, i Audra a Philip Roberts ar Ionawr 21ain, brawd bach i Ffion Wyn. Diolch i bawb am bob gofal. **Llongyfarchiadau** i Emyr a Susan, Pant Hyfryd, Ceunant. Ar 26ain o Ionawr ganwyd merch iddynt, Mared Lois Williams, chwaer fach i Ifan Rhys. Hoffai'r teulu ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau.



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED a FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil — mewn cerbyd *Rolls Royce* ar gyfer priodasau, penblwyddi ac achlysuron arbennig eraill

Dylan Griffith, Tros-y-Waen, Penisarwaun
Ffôn: (01286) 871833

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: 673981/675807

CYNHELIR

CYFARFOD CYFFREDINOL
BLYNYDDOL


ANTUR PADARN CYFYNGEDIG

YN Y GANOLFAN GYMUNEDOL
PENISARWAUN

NOS IAU, 20 MAWRTH 1997
am 7.00 p.m.

CROESO CYNNES I'R HOLL AELODAU

CROESAIR MAWRTH



AR DRAWS

1. Yr uchaf o liwiau 6, 21, 30 ar draws (4)
3. Smocio (6)
- 6, 21, 30. Babi Syr Ifan, mae'n 75 bellach (3,6,5).
8. Dogn (5)
9. Elor newydd, newydd ar ôl nosweithiau tywyll (9)
11. Y Penrhyn, neu'r Brangwyn er enghraifft (7)
13. Rhoi ei air wna Dewi dda (6)
15. Camp y rhai sy'n herio'r afon yn ei llawn llif (6)
16. Llethred (8)
19. Amrantiad fydd chwain Dic... (8)
20. Rhaff (6)
21. Gweler 6 ar draws.
24. Nwydus (7)
29. Rhain sy'n canu'r gloch ar fore Sul (9)
30. Gweler 6 ar draws.
31. Chwarter dwbl pedwar! (3)
32. Cornwyd cyn AS Llafur Môn wedi iddo golli dechrau'r drafodaeth (6)
33. Gambo (4)

I LAWR

1. Gwisg y ddafad (5)
2. Llefaru (5)
4. Noeth neu heb wallt (4)
5. Yr isaf o liwiau 6, 21, 30 ar draws (5)
6. Gwneud yn gytûn (5)
7. 'Y ddraig goch cychwyn' (4)
10. Rhoi bodolaeth (6)
12. Maint yn cynnwys lled neu hyd heb drwch (7)
14. Gwraidd crwn ac iddo arogl a blas cryf (7)
15. Y lliw canol yn arwyddlun 6, 21, 30 ar draws (3)
17. Ciwrat meddw yn diddori ei gynulleidfa (6)
18. Rhywbeth yn llosgi (3)
22. Corneli (5)
23. Ceir rhywbeth gwefreiddiol gan ferch eirias o Lundain (5)
25. Prin, dim (5)
26. Bwyd a wneir drwy ferwi blawd ceirch mewn dŵr (5)
27. Dresel (4)
28. Crybwylliad (4)

ATEBION CROESAIR MIS CHWEFROR

Tasg gymhleth yw creu croesair. Dychmygwch dreulio oriau yn cael geiriau i ffitio'r sgwâr, ac yna darganfod nad oes gair yn bodoli i ffitio'r llythrennau yn y gornel fach olaf, a gorfod aildechrau eto... ac eto...

Yr hyn a ddigwyddodd y mis diwethaf oedd i mi gymysgu dau 'ddrafft' gan yrru'r cliwiau anghywir i'r wasg.

CORC oedd y gair a fwriadwyd ar gyfer 23 ar draws, gyda chliw addas ar ei gyfer, ac nid oeddwn wedi cywiro'r cliw oedd yn rhoi MAGNELWYR yn hytrach na'r unigol ychwaith. Diolch i'r rhai ohonoch fu garediced a dwyn fy nghanngymeriad i'm sylw.

Mae'n amlwg er hynny na amharwyd ar eich pleser gan fod nifer mwy nag erioed wedi llwyddo i ateb y croesair yn gywir, 16 i gyd, sef E. E. Jones, Rhoshirwaun; Mabel Parry, Porthmadog; N. Hughes, Cwm-y-glo; Mary Davies, Waun-fawr; Ceinwen Williams, Bethel; Nansi Davies, Rhuthun; Mrs G. Gill, Bangor; Elfed Evans, Llanllechid; Ceridwen Williams, Llanrug; Rosemary Williams, Tregarth; Catherine A. Jones, Rhiw; Jean



Hughes-Jones, Rhiw; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; Miss M. Foulkes, Penisarwaun; ac Ellen Pritchard, Garndolbenmaen.

Gofynnwyd i chi greu anagram o enw plwyf yn dilyn y patrwm LLAN— er mwyn dewis enillydd, a'r un sy'n apelio fwyaf ataf ydi gwaith Ceinwen Williams, Cefn Gwyn, Bethel, sef LLAIN NEL Dda (a'i mab)! £5 i chi, a llongyfarchiadau.


Dyma rai eraill ddaeth yn agos iawn i'r brig. 'Rwyf am adael i chi eu datrys: LLE GO AFLAN, LLE TANLLYD, LLAIN GRUG, LLEN Y SAINT, LLAIN Y GAD (rhwng yr arglwydd a'r chwarelwyr!), DAN

DYDDIADUR Y MIS

3. Llund CWM-Y-GLO: Undeb y Mamau. Cynhelir Cymun y Grawys yn Hafan Elan am 7 o'r gloch.
- DEINIOLEN: Undeb y Mamau yn Eglwys Llandinorwig am 7 o'r gloch gyda'r Parchg Emyr Owen, Llanberis.
4. Mawrth PENISARWAUN: Yr Urdd. LLANBERIS: Cyfarfod cyntaf 'Y Gyfeillach' yng Nghapel Jerusalem am 2 o'r gloch. Swper y Gymdeithas yn y Bistro.
5. Mercher LLANRUG: Plaid Cymru. Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Victoria am 8 o'r gloch.
7. Gwener DEINIOLEN: Dydd Gweddi Chwirydd y Byd yng Nghapel Ebeneser am 2 o'r gloch.
- LLANBERIS: Dydd Gweddi Chwirydd y Byd yn Capel Coch am 7 o'r gloch.
10. Llund WAUNFAWR: Y Gymdeithas. Sgwrs gan Dei Tomos — 'Crwydro'.
11. Mawrth LLANRUG: Merched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi.
- DINORWIG: Cinio'r Gymdeithas yng Ngholeg Pencraig.
12. Mercher BETHEL: Cinio ym Mhorthaethwy i ddathlu Gŵyl Ddewi.
14. Gwener CWM-Y-GLO: Noson Bingo am 7 o'r gloch.
18. Mawrth BETHEL: Y Gymdeithas gyda'r Parchg Gwyn Erfyl.
24. Llund DEINIOLEN: Y Gymdeithas Lenyddol.
27. Iau (Cabld) DEINIOLEN: Cyfarfod yn Libanus am 7 o dan nawdd y Cyngor Eglwys.
28. Gwener (Y Groglith) DEINIOLEN: Awr dawel yn Eglwys Llandinorwig 2-3 o'r gloch. PENISARWAUN: Awr dawel yn Eglwys St. Helen, Penisarwaun 2-3 o'r gloch.
30. Sul (Y Pasg) DEINIOLEN: Cymun y Pasg yn Eglwys Llandinorwig am 9 o'r gloch y bore. PENISARWAUN: Cymun y Pasg yn Eglwys St. Helen, Penisarwaun am 10.30 y bore.
- DEINIOLEN: Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10.30 a 5 o'r gloch. Pregethwr gwadd: Parchg W. Davies, Pwllheli.

★ Tacsï

★ Maes Awyr



Yfwch chi Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar
National Cabline — Freephone 0800-123-444



ALOE VERA

Am well iechyd yn naturiol, profiwch nerth ALOE VERA. Canfuwyd iddo roi esmwythâd i lawer sy'n dioddef o afiechydon cyffredin fel:- Cryd y Cymalau, Mygdod, Dŵr Poeth, I.B.S., Afiechydon y Croen, Diffyg Egri Afiechydon yr Arennau, Pwysau Gwaed a.y.y.b. am fwy o fanylion, cysylltwch ag Alun, Ffôn: (01248) 670746

Fframia

GWASANAETH FFRAMIO LLUNIAU

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth

Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY :: KEITH ANDREW
KEITH BOWEN :: ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

LLANW, LLAN DICHELL, GLAN LLANFA, LLE DA I GANU (heb bedoll), LLECYN DAWN, ECO'R LLAN? IE NI FARNAI A LLAIN DEG, LLOG ALLAN.

Yn ôl i'r cyntaf allan o'r het y mis yma, gyrrwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn 21 Mawrth, os gwelwch yn dda.

RHODDION

£5: Dafydd W. Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis.

£3: Mrs Maggie Lewis, Llanrug. Bet, Lyndale, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.

£2: John a Betty Roberts, 11 Maes Eilian, Dinorwig.

£1: Ann Jones, 34 Stryd Newton, Llanberis.

CHWARAEON

NOSON WOBRWYO GWYNEDD

Eleni eto cafwyd noson lwyddiannus iawn yn Theatr Seilo dan arweiniad medrus Aled Roberts — Desmond Lynam bro'r Eco — a swyddogion datblygu chwaraeon Arfon, Meirion a Dwyfor. Wrth groesawu pawb dywedodd y Cynghorydd Pat Larsen ei bod yn bwysig fod llwyddiannau nosweithiau cyffelyb 'Arfon' yn parhau o dan faner Gwynedd. Llwyddiant fu hyn gan ei bod yn cryfhau y syniad o undod Gwynedd — er fod rhai tlysau wedi eu rhoi i adlewyrchu cyfraniad ac ymdrech yn Arfon, Meirion a Dwyfor. O ehangu'r maes byddid hefyd yn ehangu sgôp y chwaraeon oddi wrth y prif gêm. Soniwyd yn ystod y noson am athletwyr, nofwyr, golffwyr, beicwyr a hyd yn oed y rhai sy'n torri coed â bwyell! Ie, mae campau cyfoes yn amryddawn a mentrus.

Enillwyd tlws 'Geneth y Flwyddyn' gan Sarah Williams o Borthmadog sy'n bencampwraig Gymnasteg Cymru. Daeth tlws 'Bachgen y Flwyddyn' adref i Lanrug gan mai'r enillydd oedd Eifion Jones am ei record o gynrychioli timau — 15, — 16 a — 18 oed Cymru — yn yr un tymor.

I fyd nofio yr aeth y Tlws y Tîm Ieuencid. Y pedwar llwyddiannus oedd tîm — 15 ras gyfnewid Clwb Nofio Bangor, pencampwyr Cymru ac yn ddi-guro ym mhob ras yng Nghynghrair Gogledd-orllewin Lloegr. Tipyn o gamp.

Pleser mawr i'r dorf o 300 yn Theatr Seilo oedd cymeradwyo llwyddiant enillwyr tlws Tîm y Flwyddyn, sef tîm o dri o Glwb Beicwyr Harlech (Wheelers). Maent hwythau hefyd yn bencampwyr Cymru yn null y 'Team Trial'. Gyda llaw, ras i'r rhain yw pellter o 100 milltir ac mae eu hymarfer wythnosol yn 200 milltir. Roeddynt yn hynod falch o gael 'sefyll' i dderbyn y wob! Cyflwynwyd tlysau newydd eleni i brif hyfforddwyr yr ardaloedd.

Enillydd ardal Arfon oedd rhyw Richard Lloyd Jones o Fethel sy'n hyfforddwr criced, medden nhw, ac fe soniodd Aled Roberts am golofn chwaraeon Eco'r Wyddfa — diolch am y plyg!

Am eu cyfraniad i wahanol chwaraeon dros nifer o flynyddoedd cyflwynwyd tystysgrifau i Gareth Jones, Clwb Criced Bethesda; Dafydd Williams, Clwb Pêl-droed Y Bala; ac Elfed Evans, Pwllheli, o fyd snwcer (byddai Elfed ar un adeg yn chwarae i Glwb Snwcer Llanrug).

Yn flynyddol mae'r noson yn rhoi sylw teilwng i fabolgampwyr sydd ag anabledd ac fe ryfeddir at eu dyfal-barhad, ymdrech a'u gwên. Roedd Marie Hughes, Pendalar; a Paul McIver, Hafod Lom, a'r enillydd o Dywyn yn sicr yn yr olyniaeth.

Aeth prif wob'r y noson i Mark Pilkington sy'n golffiwr addawol iawn o Bwllheli ac ymysg goreuon gwledydd Prydain.

Uchafbwynt y noson wrth gwrs oedd cyfraniad Tammi Grey a chafwyd araith hynod effeithiol ganddi yn olrhain ei hanes a'i gorchestion — a hynny bob amser â gwên. Merch hynod abl yw'r person



Eifion Jones a enillodd tlws 'Bachgen y Flwyddyn' yn y Noson Wobrwy.

ag anabledd yma. Aeth â ni o'r maes ymarfer gwlyb i Farathon Llundain, i'r Gêmiau Olympaidd ac i stiwdio 'Question of Sport'. Gadawodd ni gyda'r her o 'beidio ymfalchïo yn yr hyn rydym wedi'i gyflawni eisoes, ond canolbwyntio ar y targed nesaf.'

Trefnwyd raffl a'r wob'r oedd llyfr Tammi. Yr enillydd oedd Ifan Dafydd o Lanrug. Llawer o ddiolch i bawb am noson lwyddiannus a braf iawn yw cofnodi fod llwyddiant wedi dod eto eleni i fro Eco'r Wyddfa.



Tîm Pêl-droed Llanrug B, o dan 13 oed, yn gwisgo eu dillad newydd a noddwyd gan Philip Harris Medical (trwy Feddygfa Llanrug a Waunfawr) gyda'u hyfforddwr Ellis Wyn Jones, eu swyddog Cymorth Cyntaf Mrs Dawn A. Jones, a'r Cynghorwr John D. Thomas.

RHYWBETH I'W DRAFOD

Bu cryn drafod yn ystod y blynyddoedd diwethaf am y sustem pyramid ym myd pêl-droed Cymru. Ydych chi wedi sylwi ar y cynghreiriau lleol yn ddiweddar? Yng Nghynghrair Pentec (Caernarfon a'r Cylch) mae tîm y Coleg Normal 15 pwynt ar y blaen — a hynny ar ôl dwsin o gêmiau yn unig. Ni chânt symud i gynghrair Gwynedd oherwydd problemau chwarae gêmiau dechrau'r tymor. Neb yn symud felly. Gallai Tal-y-sarn orffen ar waelod cynghrair Gwynedd ond heb ddisgyn oherwydd fod eu ail dîm yn y Pentec. Hotspurs Caergybi yw'r ffeffrynnau i ennill cynghrair Gwynedd a da fyddai gweld tîm o un o drefi mawr Gwynedd yn ôl yn y Fitlock — neu i ni'r hen-ffasiwn — yr hen 'Welsh League (North)'. Ond yna beth am y Fitlock. Y pump ar y brig ar hyn o bryd yw Glantraeth, Llanfairpwll, Porthmadog, Llanberis

a Chonwy. Chaiff Porthmadog a Chonwy ddim chwarae yn yr Alliance gan eu bod yn ail dimau yng nghynghrair Cymru. Beth am y tri thîm arall. O ran awydd a chyfleusterau ydy'n nhw, neu a gânt hwy symud i fyny. Annhebyg iawn. A dyna inni broblem. gan mai ond y pencampwyr all symud o'r Fitlock i'r Alliance, a'r gobaith wrth gwrs o gyrraedd cynghrair Cymru. Anodd gweld unrhyw glwb arall o Wynedd yn cyrraedd cynghrair Cymru onid ydi? Yn fwy trychinebus i mi, onid yw'r chwalfa amlwg yn y dull pyramid hefyd yn amharu ar ein chwaraewyr lleol. Onid ni yn lleol sy'n rhannol gyfrifol fod ein timau cynghrair cenedlaethol yn llawn o Sgowsars. Daeth yn amser i'r awdurdodau edrych ar y sefyllfa yn fuan iawn — er lles pêl-droed lleol a chenedlaethol.

PYTIAU O'R YSGOL

Daeth cryn lwyddiant i dimau hoci merched (ie, dim sôn eto am dimau bechgyn) yr ysgol eto eleni. Brynrefail yw pencampwyr — 14, — 16 a — 18 hen ardal Arfon. Cynhaliwyd y bencampwriaeth ar ffurf twrnameint yn ddiweddar. Bydd y timau yn cynrychioli'r ardal yn nhwrnameint Eryri ar y maes-pobtywydd yn Ysgol Dyffryn Ogwen.

Mae record anhygoel yr ysgol ym myd y rhedeg traws-gwlad yn parhau. Daeth chwe ysgol a 48 o redwyr at ei gilydd ar gyfer rاس gogledd Gwynedd i ddewis tîm rhanbarthol ar gyfer pencampwriaeth Eryri. Yn y ras i'r merched iau cafwyd perfformiadau arbennig gan Becky Jones (1), Elin Harding (2), Siân Green (3), Claudia O'Donnell (7), ac Andrea Sease (8).

Roedd 36 o ferched yn y ras oed canolig ac i'r brig daeth Claire Jarvis (2), Susan Thomas (3) a Kelly Williams (4).

Bydd yr wyth merch a enwyd yn cystadlu yn y gystadleuaeth sirol a gynhelir yn Nolgellau ddiwedd y mis yma. Llongyfarchiadau a phob lwc iddynt.


Bu timau traws-gwlad y bechgyn hefyd yn llwyddiannus. Yn oedrannau Bl. 8 a 9 bydd Gareth Jones, Tom Lea a Martin Watkinson yn anelu am Ddolgellau. I flynyddoedd 10 ac 11 y ddau llwyddiannus oedd Steffan Evans a Crhis Allsup.

Roedd cystadlaethau blwyddyn 7 ar y diwrnod er na fydd cystad-

leuaeth sirol iddynt. Daeth Marcus Orlie yn ail yn ras y bechgyn, a'r eneth orau oedd Ffion Jones yn 11eg.

Bu bron iawn i dîm merched pêl-rwyd — 16 gipio pencampwriaeth y sir. Daeth naw ysgol ynghyd i gystadlu am gwpan Ann Smart.

CAP PÊL-DROED ARALL



Craig Hogg.

Braf unwaith eto y mis hwn yw llongyfarch bachgen o'r ardal wedi iddo ennill ei gap pêl-droed cyntaf i dîm ysgolion Cymru o dan 15 oed. O bentref Penisarwaun y daw Craig Hogg, 15 oed, ac mae'n ddisgybl yn Ysgol Friars, Bangor. Daeth awr fawr Craig ganol mis Chwefror pan chwaraeodd yn erbyn Lloegr ar Barc

Cafwyd chwarae da yn ystod y dydd ond yn y gêm derfynol curwyd Brynrefail gan Ysgol Dyffryn Nantlle o 4-2.

Mae cryn edrych ymlaen gan y tîm pêl-droed — 12. Byddant yn chwarae yn rownd go-gyn-derfynol cwpan Cyril Rogers yn Llanelli ddiwedd y mis. Gobeithio y cawn adroddiad llwyddiannus erbyn rhifyn mis nesaf o'r Eco.

Ninian, Caerdydd. Efallai i rai ohonoch weld y gêm ar deledu lloeren y noson honno. Mor ffodus yw'r chwaraewyr rhyng-wladol ar y lefel yma. Gan fod cwmni Sky â chytundeb i ddangos pob gêm — 15 oed yng nghystadleuaeth y Victory Shield (pencampwriaeth — 15 gwledydd Prydain) gall y bechgyn gael cofnod o'u perfformiadau drwy gyfrwng y fideo. Rhoddodd y Cymry berfformiad da, er iddynt golli o 3-2 a hynny wedi iddynt fod ar y blaen ddwywaith yn ystod y gêm. Yn safle'r 'sgubwr' roedd Craig yn chwarae y noson honno. Ers blwyddyn bellach mae Craig yn aelod o garfan datblygu Everton. Roedd Craig yn arfer chwarae i dîm llwyddiannus Maes y Bryn ym Mangor, ond gan fod Everton yn chwarae eu gêmiau ar y Sul, nid yw'n chwarae i unrhyw dîm lleol ar hyn o bryd. mae Craig yn gobeithio cadw ei le ar gyfer y gêm nesaf (a fydd hefyd ar y teledu) yn erbyn Gogledd Iwerddon ar Barc Windsor, Belfast. Dymuniadau gorau iddo.